TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# Datganiad Llesiant 2022 – 27

This document is available in English
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg



# Cynnwys


1. Rhagarweiniad ........ 3

2. Y ffordd yr ydym yn gweithio ........ 4

3. Cyfrannu i'r eithaf at yr nodau llesiant cenedlaethol a dilyn y pum ffordd o weithio ........ 7

Amcan 1 – *Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif* ........ 8

Amcan 2 – A*nnog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu* ........ 13

Amcan 3 – *Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar, er mwyn cynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon* ........ 18

Amcan 4 – *Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol* ........ 25

Amcan 5 – *Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i'r amgylchedd lleol* ........ 30

Amcan 6 –*Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd* ........ 37

Amcan 7 – *Hybu ffyrdd o fyw iwchach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol* ........ 42

Amcan 8 –*Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle fynniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef* ........ 47

Amcan 9 – *Darparu gwasanaethau effeithol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae bobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau* ........ 52

4. Trefniadau Llywodraethu ac adnoddau ........ 56

5. Cyflawni ein hamcanion llesiant ........ 57


6. Sut yr eir ati i adolygu ein camau i gyflawni ein hamcanion llesiant ........ 61




## 1. Rhagarweiniad

Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Gelwir hyn yn Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

**I wneud hyn, mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi:**




*Ffigur 1: Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r 5 ffordd o weithio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

**Mae'r datganiad llesiant hwn yn nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud fel sefydliad i wneud y mwyaf o'n cyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol a sut yr ydym yn mynd ati i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i'n helpu i wireddu hyn.**

## 2. Y ffordd yr ydym yn gweithio

### - Datblygu ein cynllun a'n hamcanion

Mae ein Cynllun Sirol a'n Hamcanion Llesiant wedi'u hadeiladu ar sylfeini cadarn a ffurfiwyd trwy gyfuniad o wybodaeth a sbardunau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau a strategaethau lleol ac allweddol, arolygiadau a chanlyniadau archwilio, adroddiadau rheoleiddio, cynlluniau creu lleoedd, camau monitro mewnol ac addewidion maniffesto adeg etholiadau. Maen nhw hefyd yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth gan ein gwasanaethau rheng flaen a'n cyfarwyddiaeth.

Mae asesiad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar anghenion y boblogaeth wedi llywio ein huchelgais i atal anghenion rhag codi a gwaethygu, yn ogystal ag i ba raddau y mae preswylwyr neu eu gofalwyr angen ein cymorth. Mae Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwent, yn cynnwys asesiadau llesiant ar gyfer Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Blaenafon a'u cymunedau o'u cwmpas, yn dweud wrthym am agweddau ehangach ar lesiant ledled y sir heddiw, a hefyd, sut mae'n fwyaf tebygol o ddatblygu yn y dyfodol, yn seiliedig ar heriau fel gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd, poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldeb yn nhermau iechyd, bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a newid yn yr hinsawdd.


Yn genedlaethol, mae ystod o adroddiadau ar dueddiadau, llesiant a'r adnoddau a ddarperir, wedi helpu i lywio risgiau a chyfleoedd i Dorfaen gan gynnwys rhai ar gyfer busnes, seilwaith, tai, yr amgylchedd naturiol ac iechyd ein poblogaeth.

Wrth ddatblygu ein hamcanion llesiant, rydym hefyd wedi eu gwirio o ran gwneud synnwyr, ar sail tystiolaeth allweddol sy'n cynnwys:

- Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol
- Y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol
- Adroddiad Perygl Newid yn yr Hinsawdd i Gymru
- Archwiliadau perthnasol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Yr Arolwg Cynllunio
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae ein Cynllun Sirol a'n Hamcanion Llesiant yn darparu fframwaith clir lle gellir annog newid, ei gyfeirio ac ymateb iddo. Daw'r cynllun yn fyw a bydd ein hamcanion yn cael eu cyflawni drwy gynnwys cynlluniau cyflawni blynyddol a fydd yn ailadroddol a hyblyg, fel y gellir ymateb i fentrau, heriau a chyfleoedd newydd drwy gydol oes y cynllun.

Yn sail i'n dull gweithredu mae ymrwymiad i ymgysylltu'n barhaus â'n cymunedau a'n partneriaid lleol a fydd yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth gyffredin, pennu strategaeth y dyfodol, gosod blaenoriaethau a sicrhau eu bod wrth wraidd popeth a wnawn.




*Ffigur 2: Fframwaith ar gyfer y Cynllun Sirol*

Yn ogystal ag ystyried sut y gall pob un o'n hamcanion llesiant gynyddu ein cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol i'r eithaf, rydym hefyd wedi ystyried sut maent yn effeithio ar ei gilydd a sut y gall ein gweithgareddau gynnig hyd yn oed mwy o fanteision, trwy gyflawni'r camau mewn gwahanol ffyrdd.

Yn rhan o'r camau i ddatblygu'r Cynllun Sirol, fe wnaethom nodi gweledigaeth newydd '*i wella cynaliadwyedd, cysylltedd a llesiant yn ein sir trwy atgyfnerthu ein cymunedau, trwy greu economi leol sy'n ffynnu a diogelu a gwella'r amgylchedd'.*

Er mwyn llywio'n dulliau llunio polisi a chynllunio gwasanaethau yn ystod y blynyddoedd i ddod, bydd cysylltedd, llesiant, cynaliadwyedd, diwylliant a threftadaeth yn themâu fydd yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau a chynlluniau yn canolbwyntio ar y darlun mawr a'r weledigaeth ar gyfer y Sir.

## - Cynnwys

Mae strategaethau a chynlluniau allweddol yn ategu fwyfwy at ein hamcanion llesiant, sy'n rhoi mwy o fanylion am yr hyn rydyn ni'n mynd i'w wneud. Mae cynnwys ein cymunedau ac eraill yn y strategaeth a'r camau cynllunio sylfaenol, yn helpu i sicrhau mai ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd yw'r rhai cywir.

Rydym hefyd wedi cynnwys ein cymunedau am yr eildro yn ystod mis Tachwedd 2022, trwy ofyn eu barn am ein gweledigaeth i Dorfaen erbyn 2027, a yw ein cynllun yn cyfateb i'w huchelgeisiau ar gyfer y sir, ac a fethwyd unrhyw beth pwysig. Crëwyd arolwg ar lein, a threfnwyd chwe sesiwn galw heibio – dwy ym Mlaenafon, dwy ym Mhont-y-pŵl a dwy yng Nghwmbrân. Cafodd yr arolwg a'r sesiynau galw heibio i'r cyhoedd eu hyrwyddo drwy bosteri

a chyfryngau cymdeithasol. Aethpwyd ati hefyd i hysbysu aelodau staff ac aelodau drwy e-byst. Aeth y tîm cyfathrebu hefyd ati i ymgysylltu â phaneli dinasyddion y Cyngor a thri Chyngor Cymuned. Bu aelodau o'r tîm wrthi'n cynnal sesiynau gyda Phanel Pobl Torfaen; Grŵp 50+ Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân; Fforwm Ieuenctid Torfaen; Fforwm Mynediad Torfaen a Chynghorau Cymuned Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Cafodd manylion yr ymgynghoriad hefyd eu hanfon at Gyngor Cymuned Blaenafon a'r Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd

Trwy gynyddu'r cydweithio ar draws ein sefydliad, gyda'n partneriaid a chynnwys mwy o bobl yn ein gwaith rydym yn fwy tebygol o ddatrys yr heriau cymhleth a wynebir gan lawer sy'n byw mewn cymunedau lle allai'r anfantais fod yn fwy dwys.

## - Cyflawni ein cynllun a'n hamcanion

Mae'r Cynllun Sirol yn gynllun 5 mlynedd sy'n amlinellu ein gweledigaeth gyffredinol o ran cefnogi lles, ein hamcanion a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn Nhorfaen yn y flwyddyn nesaf. Ar ddiwedd pob blwyddyn, byddwn yn adolygu ein cynnydd ac yn ystyried yr hyn sydd angen i ni ei wneud y flwyddyn ganlynol i sicrhau ein bod yn cadw ar y trywydd iawn.

Mae yna bethau y mae angen i ni eu gwneud i gefnogi lles yn ein cymunedau nawr, ond rydym hefyd wedi edrych ar sut y gallai lles ddatblygu yn y dyfodol a sut y gallwn atal materion rhag digwydd neu rhag gwaethygu.

Er mwyn ein helpu i greu'r amodau cywir i gymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn ffordd gyson ac ystyrlon rydym wedi datblygu wyth pwynt sy'n nodweddiadol o Gyngor rhagorol ac mae'r rhain ynghyd â'n gwerthoedd craidd yn llywio'r ffordd yr ydym yn gweithio fel sefydliad.

| **Creu'r amgylchiadau iawn i gymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn modd gyson ac ystyrlon:** | |
|---|---|
| Nodweddion Cyngor rhagorol | |
| 1. **Arloesol** - Defnyddio dulliau arloesol i fynd i'r afael ag achosion yn hytrach na symptomau, fel y gallwn ni atal heriau rhag codi. | 2. **Ysbrydoledig a gweledigaethol -** Cynllunio ar gyfer y tymor hir i ddatblygu ymatebion sy'n atal a lliniaru risg a galluogi creu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| 3. **Perfformio ar lefel uchel** - Gweithio mewn ffordd integredig i gyflawni ein nodau llesiant fel y gallwn gyfrannu i'r eithaf i'n nodau llesiant cenedlaethol. | 4. **Cydweithredol a chynhwysol -** Gweithio ar y cyd gyda phob rhan o'n cymunedau, ar draws y cyngor a chyda phartneriaid allanol er mwyn cyflawni ein hamcanion llesiant. |
| 5. **Cael ei rheoli'n dda** - ansawdd, gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau deinamig ac ymatebol sy'n cefnogi lles. | 6. **Ysgogol a hygyrch** Cynnwys pob rhan o'n cymunedau i adnabod ein heriau lles a'r camau i'w cymryd i fynd i'r afael â nhw. |

| | |
|---|---|
| 7. **Craff yn ariannol** - Darparu gwasanaethau sy'n gost-effeithiol, integredig a chynaliadwy, gan gynnwys yn y tymor hir fel ein bod yn targedu cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf. | 8. **Digidol a chael ei arwain gan ddata** – Rhoi cyfrif am y tueddiadau a'r materion allanol sy'n debygol o gael effaith ar Dorfaen dros yr 20-30 mlynedd nesaf. Y rheini sydd â'r potensial i yrru anghydraddoldebau pellach, lleihau gwytnwch ac effeithio ar y galw am wasanaethau. |
| **Gwerthoedd craidd** | |
| ✓ **Arloesol** - Defnyddio dulliau arloesol i fynd i'r afael ag achosion yn hytrach na symptomau, fel y gallwn ni atal heriau rhag codi. | ✓**Teg**- gwerthfawrogi barn a safbwyntiau pobl a chynnig cyfleoedd cynhwysol i gydweithio a chymryd rhan |
| ✓**Cefnogol** – Hyfforddi ein staff i weithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | ✓**Effeithiol -** Dangos y cynnydd rydyn ni'n ei wneud tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant. |

## 3. Cyfrannu i'r eithaf at y nodau llesiant a defnyddio'r pum ffordd o weithio

Mae'r adran ganlynol yn nodi ein hamcanion llesiant, sut rydym wedi ystyried y pum ffordd o weithio wrth eu datblygu, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Mae hefyd yn disgrifio sut y bydd yr amcanion yn cyfrannu i'r eithaf at y nodau llesiant cenedlaethol a sut maent yn cydweithio i wella llesiant yn Nhorfaen

| | | |
|---|---|---|
| 1. Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif | 2. Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu | 3. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon |
| 4. Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol | 5. Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i'r amgylchedd lleol | 6. Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd |
| 7. Hybu ffyrdd o fyw iwchach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol | 8. Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle fynniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef | 9. Darparu gwasanaethau effeithol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae bobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau |

*Ffigur 3: Ein Hamcanion Llesiant*

## Amcan 1 - *Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif*

**Byddwn yn:**

- ✔ Cefnogi pobl ifanc i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau positif
- ✔ Gwella canlyniadau i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd
- ✔ Ymateb yn effeithiol i arolygiadau Estyn
- ✔ Darparu'r math cywir o gymorth ar yr adeg gywir i blant, pobl ifanc a theuluoedd
- ✔ Parhau i greu a chynnal cyfleoedd gwaith cadarn i'n preswylwyr
- ✔ Cefnogi economi sy'n gynhwysol yn gymdeithasol gan helpu grwpiau bregus i fyd gwaith
- ✔ Adeiladu cymunedau trwy wella gwybodaeth a chyngor i breswylwyr i atal problemau
- ✔ Gwella'r ddarpariaeth iaith Gymraeg

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (olive) | Cymru lewyrchus | (purple) | Cymru o gymunedau cydlynus | (dark red) | Cymru sy'n fwy cyfartal | (light blue) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| (orange) | Cymru gydnerth | (dark blue) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | (red) | Cymru iachach | | **Allwedd- Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae ein hamcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant:**

Wrth fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a gwella deilliannau addysgol, yn enwedig i bobl ifanc o deuluoedd incwm isel neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir dileu rhwystrau i gyflogaeth yn ddiweddarach yn eu bywydau a helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn rhai o'n cymunedau. (olive) (dark red)

Gall cefnogi addysg oedolion a datblygu sgiliau ddarparu cyfleoedd nes ymlaen ym mywyd i gael gwaith, symud ymlaen ym myd gwaith a newid gyrfa. (olive)

Mae cael ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth, y bobl sydd â'r sgiliau cywir i elwa ohonynt a chefnogi grwpiau bregus i fyd gwaith, yn cyfrannu at economi leol sy'n gynhwysol yn gymdeithasol ac yn llwyddiannus. (olive) (dark red)

Gall cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion i dderbyn cyfleoedd i ddysgu neu gychwyn ym myd gwaith, gael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar eu hiechyd a'u lles. (olive) (red)

Gall sicrhau bod plant yn cael pryd da o fwyd, helpu'r dysgu, gwella iechyd a chynorthwyo teuluoedd sy'n cael anawsterau talu am y pethau sylfaenol ym mywyd. (dark red) (red)

Mae darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu fel dinasyddion gweithredol a theimlo cyswllt â'r byd ehangach yn bwysig os ydym am weld cenedlaethau o oedolion yn meddwl yn 'fyd-eang' ac yn 'gweithredu'n lleol'. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod Torfaen yn lle diogel sy'n estyn croeso i'r rheini sy'n ceisio lloches. (light blue) (purple)

Sicrhau bod gan blant, beth bynnag yw eu hamgylchiadau, fynediad da i fannau naturiol sy'n iach ac ymarferol, sy'n cynnig cyfle i chwarae yn yr awyr agored, ffyrdd o fyw actif a chyfle i ddysgu. Gall adnoddau naturiol Torfaen gynnig cyfleoedd i wirfoddoli ac ennill sgiliau a all eu helpu i gychwyn ym myd gwaith yn y dyfodol. Bydd dysgu pobl ifanc am bwysigrwydd diogelu'r amgylchedd, yn helpu i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu gwarchod a'u gwella am genedlaethau i ddod.

Gall amgylcheddau dysgu ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ennill y sgiliau cymdeithasol. Adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol a dod ymlaen yn dda â phobl o wahanol gefndiroedd.

Gall ysgolion a lleoliadau eraill sy'n darparu addysg, fod yn fannau lle gellir flasu gweithgareddau diwylliannol a datblygu sgiliau iaith Gymraeg.

Mae cyrsiau ffordd o fyw addysg gymunedol fel celf, crefft, ieithoedd a hanes y teulu yn cefnogi diwylliant i ffynnu a gweithredu fel porth i ddysgu pellach, datblygu sgiliau a byd gwaith.

## Cynnwys



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i:**

✓ Weithio gyda Fforwm Economaidd Strategol Torfaen, sy'n cynnwys rhai o'n cyflogwyr mwyaf o bob sector.
✓ Cynnal gwiriad synnwyr gydag academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd.
✓ Ymgorffori argymhellion y Pwyllgor Craffu.
✓ Cynnal gwiriad synnwyr gyda Fforwm Economaidd Strategol Torfaen.
✓ Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i ymgysylltu â'r gymuned busnes ehangach.
✓ Ymgynghori ag Aelodau Etholedig, aelodau Cynghrair Ieuenctid Torfaen, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llwybrau Cadarnhaol, Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor, Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ac arweinwyr gwasanaethau ar ddrafft o Gynllun Cyflenwi Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc.
✓ Cynnal gweithdai gyda swyddogion arweiniol o bob cwr o'r Cyngor i ddatblygu Cynllun Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc.

**I gynnwys pobl yn ein gwaith, byddwn yn:**

✓ Defnyddio llwyfan digidol Cynghrair Ieuenctid Torfaen i ddod â phobl ifanc at ei gilydd i rannu'r materion sy'n bwysig iddyn nhw.
✓ Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc o bob cefndir gymryd rhan mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy ein rhaglen profiad gwaith gwasanaethau cyhoeddus.
✓ Darparu cyfleoedd cynhwysol a hygyrch i breswylwyr fynd ati i ddysgu trwy ein rhaglenni llyfrgelloedd, mentora un i un, cymorth iechyd a lles a gweithgareddau hamdden a ffordd o fyw.

## Cydweithio



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i weithio gydag:**

✓ Ysgolion, y ddarpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg, Coleg Gwent, Fforwm Economaidd Strategol a Gyrfa Cymru er mwyn deall yr heriau'n well.
✓ Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) rhanbarthol i gefnogi pob ysgol i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

✓ Fforwm Pobl Ifanc Torfaen i godi ymwybyddiaeth ynghylch y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.
✓Cynhaliwyd seminar i Aelodau, hwyluswyd drafodaeth ar lein gyda Chynghrair Ieuenctid Torfaen, cynhaliwyd trafodaeth gweithdy gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llwybrau Cadarnhaol – Swyddogion Arweiniol i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

**I gyflawni ein camau byddwn yn gweithio gyda'r:**
✓ Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) rhanbarthol i dargedu cymorth pwrpasol i ysgolion.
✓ Bwrdd Partneriaeth Gwelliannau Strategol newydd i ddarparu arbenigedd a her allanol i helpu i sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i arolygiadau Estyn. Byddwn yn rhannu ein cynnydd gydag aelodau etholedig a'r cyhoedd.
✓ Ysgolion, Coleg Gwent, y Fforwm Economaidd Strategol a Gyrfa Cymru i godi dyheadau ymysg pobl ifanc.
✓ Fforwm Pobl Ifanc Torfaen, grwpiau ieuenctid, ysgolion a'r gymuned, i sicrhau y bydd pobl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn derbyn cefnogaeth i gyflawni eu nodau addysgol.
✓Darparwyr addysg yn y gwaith i helpu i ddiwallu galw'r farchnad lafur
✓Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i dargedu'r buddsoddi yn ôl anghenion lleol.
✓ Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fusnesau lleol a datblygu sgiliau.

# Atal

**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn** rydym wedi ystyried y materion sy'n atal plant a phobl ifanc rhag cyrraedd eu potensial yn llawn, a'r rhwystrau y mae oedolion yn eu hwynebu wrth geisio cael hyd i waith, neu ddatblygu yn y gweithle.
**Byddwn yn mynd ati drwy**:
✓ Fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a gwella canlyniadau a sgiliau addysgol, yn enwedig i bobl ifanc o deuluoedd incwm isel.
✓ Cefnogi presenoldeb ysgol ac ymddygiadau cadarnhaol ymysg disgyblion er mwyn atal pobl ifanc rhag ymddieithrio.
✓ Rhoi cyfle i blant gael pryd ysgol da er mwyn gwella iechyd a chefnogi'r dysgu.
✓ Ehangu mynediad at ofal plant wedi'i ariannu gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg, i gefnogi rhieni i gael hyd i waith.
✓ Darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion ymdrochi yn y Gymraeg yn ein hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a'n hysgol uwchradd.
✓ Darparu sgiliau hanfodol a chyfleoedd i ddysgu sgiliau ar gyfer swyddi penodol trwy ein cyfleuster dysgu oedolion a'r gymuned.
✓ Darparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET a mentora a thargedu cymorth cyflogaeth i'r rheini sydd wedi dod yn NEET.

# Tymor hir

I'n helpu i ddatblygu ein hamcan rydym wedi ystyried heriau a chyfleoedd a allai effeithio ar addysg a chyflogaeth yn y dyfodol, fel y gallwn helpu i wella cyfleoedd bywyd yn y tymor hir.

**Mae Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol[1] yn tynnu sylw at y canlynol:**

- Bydd technoleg yn chwarae rhan gynyddol ym myd gwaith yn y dyfodol a bydd cyflogwyr yn galw am y bobl sydd â'r sgiliau iawn.
- Mae pobl iau a menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi a fydd yn cael eu hawtomeiddio yn y dyfodol.
- Mae aelwydydd di-waith yn parhau i wynebu'r risg fwyaf o dlodi incwm.
- Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio ac mae disgwyliad oes iach yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU.
- Mae eithrio digidol yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol a gallai'r ddibyniaeth gynyddol ar dechnolegau digidol ehangu'r anghydraddoldeb.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn cynyddu
- Disgwylir mai ymysg y grwpiau oedran ifanc y bydd y cynnydd mwyaf

**Mae Prifddinas Ranbarth Caerdydd wedi canfod** bod meysydd cyflogaeth allweddol yn bwysig i ffyniant y rhanbarth yn ystod y 10-20 mlynedd nesaf. Dyma nhw: gwyddorau bywyd, technoleg ariannol, deallusrwydd artiffisial, yr economi creadigol, peirianneg trafnidiaeth, cynhyrchu lled-ddargludol, seiber-ddiogelwch, dadansoddeg ac ynni a'r amgylchedd[2].

**Byddwn yn mynd ati drwy**:

✓ Rhoi cymorth i fusnesau sydd am arloesi.

✓ Cydweddu sgiliau, hyfforddiant a dysgu i sectorau'r dyfodol, codi dyheadau pobl ifanc a hyrwyddo gyrfaoedd lleol i greu cyfleoedd gwaith â sgiliau medrus i bobl ifanc lleol a chyfrannu at les economaidd hirdymor y cymunedau yn Nhorfaen.

✓ Darparu prentisiaethau, lleoliadau gwaith a chynnig dysgu cymunedol perthnasol i oedolion i helpu i greu a chynnal lefelau cyflogaeth uchel

✓ Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET a chael gwared ar rai o'r rhwystrau sy'n atal oedolion rhag cael hyd i waith, neu ddatblygu yn y gweithle.

✓ Rhoi cyfleoedd dysgu parhaus yn ystod oedolaeth i gefnogi dilyniant o ran cyflogaeth a'r gallu i newid gyrfa.

✓ Cefnogi prentisiaethau a mathau eraill o ddysgu yn y gwaith i ddatblygu sgiliau galwedigaethol sy'n hanfodol i lwyddiant ein sectorau allweddol gan gynnwys gweithgynhyrchu, lletygarwch, adeiladu a'r economi sylfaenol - mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig pan allai poblogaeth sy'n heneiddio gynyddu'r galw yn y dyfodol.

✓ Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw er mwyn mynd i'r afael ag iechyd gwael a all effeithio ar berfformiad addysgol a gallu pobl i ddod o hyd i waith teilwng a dal gafael arno.

✓ Gwella sgiliau digidol drwy ein cynnig Dysgu Oedolion a'r Gymuned.

✓ Gwella'r ddarpariaeth Iaith Gymraeg.

## Integreiddio

### Sut mae'r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor:

[1] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021

[2] Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

***Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu:***

- Bydd addysg o ansawdd da yn cefnogi pobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cyfrannu at eu lles economaidd yn ddiweddarach yn eu bywydau.
- Mae ennill sgiliau hanfodol a dysgu sgiliau ar gyfer swyddi penodol trwy ein cyfleuster dysgu oedolion a'r gymuned yn helpu i chwalu rhai o'r rhwystrau sy'n atal oedolion rhag cychwyn ym myd gwaith neu ddatblygu yn y gwaith.
- Gweithio gyda phobl ifanc mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd drwy eu cyfeirio at wasanaethau cymorth ieuenctid i'w cefnogi i wneud dewisiadau gwell a pharhau i ymgysylltu â dysgu.

***Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon:***

- Bydd lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a gwella canlyniadau addysgol, yn enwedig i bobl ifanc o deuluoedd incwm isel, yn eu cefnogi i gyrraedd eu potensial addysgol yn llawn.
- Gall cael gwared ar rwystrau sy'n atal oedolion rhag cael hyd i waith, neu ddatblygu yn y gweithle wella eu cyfleoedd bywyd.
- Bydd darparu cymorth parhaus i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET, a thargedu mentora a chymorth cyflogadwyedd yn cynorthwyo'r rheini sydd wedi dod yn NEET i wella'u cyfleoedd mewn bywyd.

***Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol:***

- Dod â phobl ifanc at ei gilydd i rannu'r materion sy'n bwysig iddyn nhw drwy blatfform Cynghrair Ieuenctid Torfaen.
- Gall rhaglenni llyfrgell, mentora un i un, cymorth iechyd a lles, cymorth ffordd o fyw a gweithgareddau hamdden, atgyfnerthu cydlyniant cymunedol a darparu cyfleoedd cynhwysol i breswylwyr fynd ati i ddysgu, yn cynnwys cefnogaeth i wella sgiliau digidol.
- Bydd darparu cyfleoedd i fanteisio ar brofiad gwaith lleol yn helpu i godi dyheadau a hyrwyddo gyrfaoedd mewn busnesau lleol.

***Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy, a chreu gwelliannau i'r amgylchedd lleol:***

- Ystyried datblygiadau sero net wrth ddylunio ein hysgolion newydd. Rydyn ni eisoes yn gweithio ar ein hysgol Passivhaus gyntaf yng Nghwmbrân.
- Bydd creu gwelliannau i ddŵr ac effeithlonrwydd ynni ar draws ein hysgolion yn cyfrannu at ein taith garbon sero net.
- Gweithio gydag ysgolion i rannu negeseuon ymwybyddiaeth gwastraff ac ar weithgareddau ymwybyddiaeth ynni.
- Gweithio gydag ysgolion i annog casglu hadau yn casglu a thyfu egin blanhigion ar dir yr ysgolion.
- Paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid a'r effeithiau y bydd yn eu cyflwyno, yn cynnwys ar ddysgu.
- Sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau cywir i gefnogi'r daith sero net.
- Annog arloesi mewn busnes mewn meysydd sydd o flaenoriaeth cyhoeddus fel newid yn yr hinsawdd. Mae potensial sylweddol am ynni adnewyddadwy wedi'i nodi ar draws

Gwent. Pe bai'n cael ei wireddu gallai gefnogi'r daith ddi-garbon a chyfrannu at ffyniant lleol.

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd:***

- Bydd cydweithio â darparwyr mewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith yn helpu i ateb y galw ar y farchnad lafur ac yn rhagweld y galw yn y dyfodol.
- Gweithio'n agos gyda Fforwm Economaidd Strategol Torfaen, ein darparwyr addysg leol a'n graddedigion i godi ymwybyddiaeth ynghylch gyrfaoedd a chyfleoedd lleol.

***Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol:***

- Gall cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion i fanteisio ar gyfleoedd dysgu neu gyflogaeth, gael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar eu hiechyd a'u lles.
- Gall annog ffyrdd iach o fyw, gefnogi perfformiad addysgol a gallu pobl i ddod o hyd i waith teilwng, a dal gafael arno.

***Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef:***

- Gall ysgolion a lleoliadau addysgol eraill fod yn fannau sy'n cynnig y cyfle i flasu gweithgareddau diwylliannol newydd, a chyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg.
- Bydd rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd yn eu cefnogi i feithrin cyfeillgarwch newydd ac i ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol sy'n bwysig i ddiwylliant ffynnu.
- Mae ffordd o fyw, cyrsiau hamdden a chlybiau mewn meysydd fel celf, crefftau, ieithoedd a hanes teuluol, yn helpu i ddiwylliant ffynnu, a helpu ein preswylwyr i wella'u hyder, rhwydweithiau cymdeithasol ac iechyd meddwl. Gallant hefyd agor drysau i ddysgu pellach, datblygu sgiliau a byd gwaith.

***Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae bobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau:***

- Bydd gwella sgiliau digidol trwy ein cynnig Dysgu Oedolion a'r Gymuned yn grymuso pobl i ffynnu mewn byd sy'n dod yn fwyfwy digidol.

## Amcan 2 *– Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu*

**Byddwn yn:**

- ✔ Gwella cyfleusterau dysgu a chefnogi dulliau addysgu modern drwy raglen ysgolion yr 21ain ganrif
- ✔ Adeiladu ar ddull aml-asiantaeth ein Gwasanaethau Plant tuag at frysbennu atgyfeiriadau'n ddiogel
- ✔ Adeiladu ar ymarfer sy'n rymus ein Gwasanaethau Plant i gynorthwyo plant i aros yn ddiogel yn eu cartrefi
- ✔ Gwella ein gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar
- ✔ Gweithio gyda phobl ifanc mewn perygl o gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd

- ✔ Cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cael hyd i loches
- ✔ Ehangu mynediad i ofal plant wedi'i ariannu gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- ✔ Cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a sgiliau byw'n annibynnol
- ✔ Darparu cyfleoedd chwarae cynhwysol

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru lewyrchus | | Cymru o gymunedau cydlynus | | Cymru sy'n fwy cyfartal | | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| | Cymru gydnerth | | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru iachach | | **Allwedd- Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae'r amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:**

Bydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir yn eu helpu i gael dechrau da mewn bywyd ac i dyfu i fyny'n iach a chael y gofal.

Bydd diogelu plant a theuluoedd yn Nhorfaen rhag cael eu hecsbloetio, rhag trais a chamdriniaeth yn cefnogi eu hiechyd a lles yn y tymor hir, a chyfrannu at gymunedau mwy diogel. Bydd cynorthwyo plant a theuluoedd i gael dechrau teg mewn bywyd, waeth beth yw eu cefndir neu eu gallu, yn creu Torfaen sy'n fwy cyfartal.

Er mwyn i blant a theuluoedd ffynnu mae angen iddyn nhw fyw mewn amgylchedd diogel a glân â mannau gwyrdd. Mae cael mynediad at ystod eang o gefnogaeth yn y gymuned yn gallu helpu i greu annibyniaeth ac ymdeimlad o berthyn yn y man mae pobl yn byw.

Bydd mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn helpu i sicrhau bod Torfaen yn groesawgar ac yn ddiogel - gan gynnwys i'r rhai sy'n ceisio lloches. Mae annog plant a phobl ifanc i ddatblygu fel dinasyddion gweithgar a theimlo cysylltiad gyda'r byd ehangach yn bwysig os ydym am weld cenedlaethau newydd sy'n 'meddwl yn fyd-eang a gweithredu'n lleol'.

Bydd sicrhau bod plant a theuluoedd yn Nhorfaen yn cael addysg o ansawdd, sy'n gynhwysol a chyfranogol, a chyfle i ddatblygu sgiliau, yn eu helpu i wireddu eu potensial yn llawn. Yn ei dro bydd hyn yn cyfrannu at Dorfaen sy'n ffynnu. Bydd gwella cyfleusterau dysgu drwy gadw carbon sero net mewn meddwl, yn ein helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a chefnogi dulliau dysgu modern.

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a dysgu fod yn ddewis cadarnhaol yn lle ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan greu cymunedau mwy diogel a mwy cynhwysol.

## Cynnwys



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i:**

✓ Wrando ar leisiau plant a phobl ifanc a chysoni'n dulliau â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

✓Gwrando ar arweinwyr lleol, teuluoedd a phenaethiaid ynghylch mynd ati i weithio'n effeithiol yng nghyd-destun y gymuned.

✓Ymgysylltu â chymunedau Torfaen i ddeall eu cryfderau a'u hanghenion unigryw yn well.

**I'n helpu i gynnwys pobl yn ein gwaith, byddwn yn:**

✓ Defnyddio cynadleddau grwpiau teulu i dargedu cymorth a helpu i atal problemau rhag codi.

✓ Datblygu siwrneiau cwsmeriaid i ddeall anghenion plant a phobl ifanc bregus yn well, fel bod y gwasanaeth yn addas i'r diben.

✓ Cefnogi'r Gynghrair Plant a Phobl Ifanc i sicrhau bod barn a dyheadau plant a phobl ifanc yn llywio'r gwaith o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau yn y dyfodol.

✓Cynnwys arweinwyr lleol, teuluoedd a phenaethiaid yn ein gwaith wrth symud ymlaen.

# Cydweithio



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i :**

✓Ymgynghori ag Aelodau Etholedig, aelodau Cynghrair Ieuenctid Torfaen, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llwybrau Positif, Tîm Arwain y Cyngor, Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd ac arweinwyr y gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc ynghylch y cynllun drafft ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc.

✓ Cynnal gweithdai gyda swyddogion arweiniol o bob rhan o'r Cyngor er mwyn datblygu'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc.

✓ Cynhaliwyd seminar i'r Aelodau, hwyluso trafodaeth ar-lein gydag aelodau Cynghrair Ieuenctid Torfaen, cafwyd trafodaeth gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llwybrau Cadarnhaol – Swyddogion Cyflawni Arweiniol.

**I gyflawni ein camau byddwn yn gweithio gyda:**

✓ Teuluoedd Torfaen i ddatblygu sgiliau magu plant a rhoi cyfleoedd i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol.

✓ Asiantaethau sy'n bartneriaid a'r gymuned i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys brysbennu atgyfeiriadau'n ddiogel drwy'r Hwb Gwasanaethau Cymorth Aml-Asiantaeth (MASSH).

✓ Pobl ifanc a theuluoedd i fynd ati i ddysgu datblygu sgiliau.

✓ Pobl ifanc i'w cefnogi i wneud dewisiadau gwell gyda'u hamser rhydd.

✓ Cymunedau, aelodau etholedig, partneriaid lleol a chenedlaethol a phlant a theuluoedd i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i wella.

✓ Plant a phobl ifanc i sicrhau bod cyfleoedd ganddynt i gwrdd â ffrindiau a chael lleoedd i chwarae a mwynhau eu hunain.

# Atal



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn** rydym wedi ystyried y materion sy'n rhwystro plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael y canlyniadau gorau. Mae gan y rhwydweithiau Iechyd, tai, cyflogaeth, cyllid, addysg a chymorth cymdeithasol y potensial i effeithio ar fywyd teuluol.

**Byddwn yn mynd ati drwy**:

✓ Adnabod a darparu cymorth cynnar ac effeithiol, yn enwedig i'r rhai sydd mewn perygl o wynebu canlyniadau gwaeth.

✓ Creu fframwaith darparu cymorth cynnar yn seiliedig ar 'hybiau' ysgol i gyfeirio pobl ifanc a'u teuluoedd ar y cyfle cyntaf un i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

✓ Mabwysiadu dull cydgysylltiedig wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys drwy'r Hwb Gwasanaethau Cymorth Aml-asiantaeth. Gallwn helpu i sicrhau na fyddwn yn methu cyfleoedd i ddiogelu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio, bod yn destun trais a chamdriniaeth.
✓ Monitro'r system gyffredinol yn effeithiol fel bod partneriaid yn ymwybodol o heriau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion sy'n newid.
✓ Gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu gymryd rhan mewn troseddau, i'w cefnogi i wneud dewisiadau gwell gyda'u hamser rhydd.
✓ Darparu cyfleoedd chwarae cynhwysol sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

## Tymor hir

Er mwyn ein helpu i ddatblygu'n hamcan, rydym wedi ystyried yr heriau a chyfleoedd hirdymor allai effeithio ar fywyd teuluol a phrofiadau yn ystod plentyndod.

***Mae Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol[3] yn tynnu sylw at y canlynol:***

*-Nid yw lleihau tlodi incwm yn digwydd yn gyfartal ac mae bylchau mewn cydraddoldeb incwm i rai grwpiau dal i fodoli yng Nghymru*
*-Mae aelwydydd di-waith yn parhau i wynebu'r perygl fwyaf o ran tlodi incwm cymharol*
*- Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ers 2014/15 wedi cynyddu, gyda'r lefelau ar eu huchaf ymhlith y rhai sy'n byw mewn aelwydydd di-waith*
*- Mae'r prif dafluniad mudo i Gymru yn cyfeirio at boblogaeth sy'n cynyddu hyd at 2037*
*- Disgwylir y bydd mudo rhyngwladol blynyddol i Gymru tua 6,000 y flwyddyn o ganol 2025 ymlaen*
*- Mae disgwyliad oes iach yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, ac nid yw wedi dangos fawr o newid dros amser*
*-Nid yw lefelau iechyd a hunan gofnodir wedi dangos fawr o welliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'r bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn lledu fymryn*
*- Mae ffigurau mudo net nad ydynt yn dod o'r UE wedi bod yn cynyddu yn y DU ers 2013, tra bod mudo net yr UE wedi sefydlogi er 2018*
*-Disgwylir y bydd mudo net rhyngwladol blynyddol i Gymru tua 6,000 y flwyddyn o ganol 2025 ymlaen.*

**Byddwn yn mynd ati drwy**:
✓ Rhoi cymorth cynnar i blant a theuluoedd fel bod ganddynt gyfle teg mewn bywyd, beth bynnag yw eu cefndir neu eu gallu, er mwyn eu helpu i gyrraedd eu potensial a byw bywyd bodlon.
✓ Cyfrannu at les economaidd unigol trwy ddarparu addysg o ansawdd da i gefnogi pobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd.
✓ Ehangu mynediad at ofal plant wedi'i ariannu gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg, i gefnogi rhieni i weithio.
✓ Cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cael lloches.

## Integreiddio

[3] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021

Sut mae’r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a’r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif:***

- Bydd darparu addysg o ansawdd da yn cefnogi pobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cyfrannu at eu lles economaidd yn ddiweddarach yn eu bywydau.
- Bydd gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn eu cefnogi i wneud dewisiadau gwell a dal ati i ddysgu.

***Mynd i’r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon:***

- Bydd darparu cymorth cynnar, effeithiol, i blant a theuluoedd fel bod ganddynt gyfle teg mewn bywyd beth bynnag yw eu cefndir neu eu gallu, yn eu helpu i gyrraedd eu potensial a byw bywyd bodlon.

***Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol:***

- Bydd cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, yn eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldeb am yr heriau yr ydym yn eu hwynebu, gan gynnwys gwneud ein cymunedau yn fannau diogel.
- Bydd darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i gwrdd â ffrindiau a chael lle i chwarae a mwynhau eu hunain, yn cefnogi cymunedau i ffynnu, i fod yn hyfyw, gyda chysylltiadau da.
- Mae cael mynediad i ystod eang o gymorth yn y gymuned yn gallu helpu i greu annibyniaeth ac ymdeimlad o berthyn i’r lle y mae pobl yn byw.

***Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i’r amgylchedd lleol:***

- Gall yr argyfwng costau byw olygu bod mwy o bobl yn wynebu tlodi tanwydd, a gall hyn effeithio ar fywyd teuluol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo cynlluniau cartref cynnes ac yn gweithio gyda phartneriaid ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllun Eco-flex yn rhanbarthol gyda'r nod o wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref.
- Bydd sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da, a bod adnoddau naturiol Torfaen mewn cyflwr da fel y gallant gefnogi lles yn y ffordd orau, yn helpu i gael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Bydd sicrhau bod ein hasedau naturiol yn cael eu rheoli'n dda ac mewn cyflwr da, yn golygu y gall cenedlaethau o blant a phobl ifanc yn y dyfodol fanteisio ar eu lles.

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd:***

- Bydd sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd bregus yn cael addysg o ansawdd, sy’n gynhwysol a chyfranogol yn ogystal â chyfle i ddatblygu sgiliau, yn eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial yn llawn, a gwneud cyfraniad gwerthfawr i weithlu'r dyfodol.
- Drwy fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol rydym yn gwneud Torfaen yn lle mwy deniadol i gynnal busnes.

***Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol:***

- Bydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir yn eu helpu i gael dechrau da mewn bywyd.
- Bydd datblygu sgiliau magu plant yn helpu i sicrhau bod plant yn tyfu i fyny yn iach ac yn derbyn gofal.
- Bydd amddiffyn plant a theuluoedd Torfaen rhag cael eu hecsbloetio, dioddef trais a chamdriniaeth yn cefnogi eu hiechyd a'u lles yn y tymor hir.

***Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef:***

- Bydd darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn bywyd diwylliannol a chymunedol a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i gwrdd â ffrindiau a chael lleoedd i chwarae a mwynhau eu hunain yn cefnogi cymunedau i fod yn hyfyw, ffyniannus a meddu ar gysylltiadau da.
- Gall cefnogaeth yn y gymuned helpu i greu annibyniaeth ac ymdeimlad o berthyn i'r lle mae pobl yn byw.
- mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn helpu i gyfrannu at gymunedau mwy diogel a ffyniannus.
- Bydd cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i integreiddio yn ein cymunedau yn agor drysau i ddiwylliannau newydd a chefnogi cymunedau bywiog.

***Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau***

- Bydd gwella cyfleusterau dysgu a chefnogi dulliau addysgu modern yn cefnogi plant a phobl ifanc i ffynnu.

## Amcan 3 – *Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar er mwyn cynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon*

**Byddwn ni'n:**

- ✔ Darparu cymorth ar gyfer treth y cyngor a budd-daliadau ac ymateb i'r argyfwng costau byw
- ✔ Cefnogi gallu cymunedau i adeiladu ar gryfderau
- ✔ Cynnwys pobl ifanc mewn gweithgarwch pwrpasol mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol
- ✔ Darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl
- ✔ Gwella ein gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar
- ✔ Gweithio mewn partneriaeth ar draws pob cyfarwyddiaeth, gydag asiantaethau allanol a chymunedau i alluogi dinasyddion i gael cymorth anstatudol a chynnar
- ✔ Targedu cymorth i bobl ifanc a theuluoedd pan fydd materion fel tlodi yn rhwystro'u gallu i gael a gwasanaethau
- ✔ Darparu gwersyll hwyl a bwyd sy'n darparu brecwast a chinio maethlon am ddim
- ✔ Cefnogi'r farchnad gofal cartref sy'n ansefydlog ac ymateb i'r cynnydd yn y galw, a chymhlethdodau gofal cartref
- ✔ Gweithredu Hwb Galluogi Cymunedol Tŷ Glas Yr Dorlan i hybu annibyniaeth a lleihau

unigrwydd.

- ✔ Helpu preswylwyr ag anghenion gofal a chymorth i gael diwrnod da, drwy cyfleoedd dydd cymunedol
- ✔ Gweithio gydag unigolion a theuluoedd sydd angen cyngor ac arweiniad ar dai ac atal digartrefedd
- ✔ Parhau i greu a chynnal cyflogaeth diogel i'r preswylwyr
- ✔ Darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn oed meithrin a chynradd

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru lewyrchus | | Cymru o gymunedau cydlynus | | Cymru sy'n fwy cyfartal | | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| | Cymru gydnerth | | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru iachach | | **Allwedd=Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae'r amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:**

Bydd cadw pobl yn iach ac yn byw yn y gymuned, ac allan o'r ysbyty am gyfnod hirach, yn helpu pobl i fyw bywydau a mwy annibynnol, a theimlo'n rhan o'u cymunedau.

Bydd atal digartrefedd a chynnig cyngor ar dai yn helpu i sicrhau bod anghenion tai lleol yn cael eu diwallu, a bydd hyn yn cefnogi iechyd a lles yn y tymor hir.

Gall cefnogi preswylwyr mewn trafferthion ariannol i dderbyn yr incwm uchaf posib, gyfrannu at les meddyliol a chorfforol a rhoi cyfle i bobl fforddio dewisiadau iachach.

Bydd sicrhau bod gwasanaethau cwnsela o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc yn cefnogi iechyd meddwl da.

Bydd atal plant rhag dod i gyswllt â'r system cyfiawnder troseddol a gweithio i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi cymunedau mwy cydlynus lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod Torfaen yn groesawgar ac yn ddiogel, gan gynnwys estyn croeso i'r rhai sy'n ceisio lloches.

Bydd cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial yn ddiweddarach mewn bywyd yn cyfrannu at Dorfaen fwy cyfartal.

Mae annog plant a phobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion gweithredol a theimlo cyswllt â chefnogi lles yn y byd ehangach, yn bwysig os ydynt am weld cenedlaethau newydd o oedolion sy'n teimlo ac yn derbyn cyfrifoldeb am 'feddwl yn fyd-eang a gweithredu'n lleol'.

Bydd cefnogi ymgysylltu a datblygu pobl ifanc drwy adnabod yn gynnar a chymorth parhaus yn helpu i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET a bydd targedu cyflogadwyedd a mentora yn cefnogi'r rheini sydd eisoes yn NEET i wella'u cyfleoedd mewn bywyd.

Bydd creu cyfleoedd gwaith i breswylwyr pan fyddwn yn caffael contractau mawr neu'n cyflawni prosiectau adeiladu, a chefnogi'r mwyaf difreintiedig i gael gwaith teilwng, trwy ein cynnig dysgu oedolion yn y gymuned, yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n bodoli yn ein cymunedau.

Bydd gweithredu Strategaeth Gofal Cartref i fynd i'r afael â'r farchnad gofal cymdeithasol ansefydlog ac ymateb i'r cynnydd yn y galw a chymhlethdodau gofal cymdeithasol, yn cyfrannu at Dorfaen mwy ffyniannus sy'n bodloni anghenion preswylwyr o ddydd i ddydd.

Gellir disgwyl gaeafau mwynach o ganlyniad hinsawdd sy'n newid a bydd hyn yn helpu i leihau'r tanwydd a ddefnyddir. Fodd bynnag, mae effeithlonrwydd thermol llawer o'n stoc dai yn wael, sy'n golygu ei fod yn anoddach ac yn fwy costus i'w gwresogi mewn tywydd oer, neu ei gadw'n oer mewn tywydd poeth. Bydd cefnogi Cynllun Nyth, Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru, yn darparu cyngor ar ynni ac effeilonrwydd yn y cartref, a chyfrannu at siwrnai Torfaen i fod yn ddi-garbod. Hefyd, bydd helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw, drwy wneud taliadau tanwydd gaeaf, byddwn yn cefnogi'r mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Bydd darparu cyngor ac arweiniad ar lesiant yn annog cynhwysiant cymdeithasol ac yn helpu i adeiladu capasiti cymunedol.

Mae gwersylloedd hwyl a bwyd yn cynnig brecwast a chinio maethlon am ddim, ac yn gyfle i bobl ifanc wneud ffrindiau newydd a chael blas ar weithgareddau sy'n cyfrannu at ddiwylliant lleol bywiog.

Bydd creu cyfleoedd cynhwysol ar gyfer diwrnod da yn y gwasanaeth dydd cymunedol – yn cynnwys ymgysylltu â diwylliant a'r celfyddydau, yn cyflawni canlyniadau bywyd mwy cadarnhaol a chefnogi iechyd meddwl da.

## Cynnwys



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i:**

✓ Wrando ar ein defnyddwyr, gofalwyr, staff a gweithwyr proffesiynol eraill i ganfod sut beth yw *diwrnod da* – o ran gwasanaeth dydd. Fe wnaethom hefyd ymgysylltu â'r farchnad.

✓ Cysylltu â phobl hŷn yn ein cymunedau a staff gwasanaethau cyhoeddus i ddeall pa gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl i fyw bywydau annibynnol, iach a bodlon am gyfnod hirach.

**I'n helpu i gynnwys pobl yn ein gwaith, byddwn yn:**

✓ Ymgynghori â phlant a phobl ifanc i gael barn ar sut y gellir gwella gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ymhellach..

✓ Ymgysylltu â darparwyr gofal cartref i gynllunio a darparu gwasanaethau gofal yn Nhorfaen.

## Cydweithio



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i:**

✓ Cyd-ddylunio ac ymgynghori ar fodel newydd i ymgysylltu â phobl ifanc (Cynghrair Ieuenctid Torfaen) fel y gall bobl ifanc ddweud wrthym am y materion sy'n bwysig iddyn nhw.
✓Gweithio gyda'r gwasanaeth ymyrraeth amlasiantaeth i ddisgyblion.
✓Gweithio gyda'r Grŵp Cydnerth Cymunedol i ddeall yn well, yr heriau sy'n wynebu cymunedau yn Nhorfaen.

**I gyflawni ein camau byddwn yn gweithio gyda:**
✓ Y bwrdd iechyd lleol i wella trosglwyddo gofal, lleihau amseroedd aros am becynnau gofal ac atal ymweliadau y gellir eu hosgoi i ysbytai drwy wasanaethau yn y gymuned.
✓ Gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion wrth ddatblygu cynlluniau gofal
✓ Partneriaid y sector gofal a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i hyrwyddo 'gofal fel gyrfa' a lleihau nifer y swyddi gwag yn y maes gofal cartref.
✓ Partneriaid mewnol ac allanol i adnabod a gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth, a'u cynnwys er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac eithrio.
✓ Cynghorau Cymuned i wella lles cymunedol ac adnabod heriau cymunedol yn gynnar.
✓ Y Grŵp Cydnerthedd Cymunedol aml-asiantaeth i adeiladu capasiti cymunedol.
✓ Llywodraeth Cymru i gefnogi cynllun Nyth, Cartrefi Cynnes.
✓ Cyngor ar Bopeth i ddarparu cyngor a chymorth ynghylch cynhwysiant ariannol ac i sicrhau bod preswylwyr yn derbyn yr incwm mwyaf
✓ Yr Adran Gwaith a Phensiynau i helpu atal digartrefedd drwy gyfrannu tuag at Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai.

## Atal



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn** rydym wedi ystyried y ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau yn ein cymunedau a sut gallwn gefnogi gwydnwch ac annibyniaeth y cymunedau.

**Byddwn yn mynd ati drwy**:
✓ Ddarparu atebion priodol i unigolion drwy ein Hwb Galluogi Cymunedol, sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cymryd risgiau cadarnhaol a chynhwysiant cymdeithasol, gan alluogi pobl i fyw'r ffordd y maent yn ei ddewis. Bydd hyn yn lleihau'r angen am gymorth gofal yn y cartref, gofal preswyl / nyrsio ac osgoi gorfod aros mewn ysbytai.
✓ Gweithio'n rhagweithiol gyda'r unigolion/teuluoedd hynny sy'n gofyn am gyngor ac arweiniad ar faterion tai i'r rhai sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref, ac i atal digartrefedd.
✓ Darparu tai â chymorth, gan gynnwys cyfleusterau tai â chymorth camu i fyny/camu i lawr, i unigolion sydd mewn perygl i drosglwyddo i denantiaethau diogel ac arwain i annibyniaeth yn y pen draw.
✓ Cefnogi plant a phobl ifanc drwy ymyrraeth aml-asiantaeth i ddisgyblion, i'w hatal rhag dod i gyswllt â'r system cyfiawnder troseddol.
✓ Bydd creu a chynnal cyflogaeth ddiogel i'n preswylwyr yn helpu i atal anghydraddoldebau economaidd yn ein cymunedau.
✓ Helpu pobl i osgoi tlodi drwy fudd-daliadau rhent a chymorth treth y cyngor
✓ Helpu pobl i osgoi ôl-ddyledion rhent neu rhag colli eu cartref trwy daliadau disgresiwn at gostau tai.

✓ Helpu pobl gyda’r argyfwng costau byw drwy ddarparu taliadau tanwydd gaeaf
✓ Datblygu gwybodaeth costau byw ar wefan y cyngor a thrwy ein cylchlythyr e-fwletin Craff a Chynnil i gyfleu’r diweddaraf ar y manteision, grantiau a chefnogaeth ddiweddaraf sydd ar gael i helpu i arbed arian ac atal problemau.

## Tymor hir



Mae poblogaeth sy'n heneiddio ac adnoddau cyfyngedig yn golygu bod yn rhaid i ni gymryd camau gweithredu i gadw pobl yn iach ac yn annibynnol neu bydd y galw ar wasanaethau cyhoeddus yn anghynaladwy. Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein hamcan, rydym wedi meddwl am heriau a chyfleoedd hirdymor a allai ehangu anghydraddoldebau yn ein cymunedau.

***Mae Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru[4]yn tynnu sylw at y canlynol:***
*- Nid yw gostyngiadau mewn lefelau tlodi incwm yn digwydd yn gyfartal ac mae bylchau mewn cydraddoldeb incwm o hyd ar gyfer grwpiau penodol yng Nghymru.*
*- Mae aelwydydd nad ydynt yn gweithio yn parhau i wynebu'r risg fwyaf o fod mewn tlodi incwm cymharol.*
*- Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ers 2014/15 wedi cynyddu, gyda'r lefelau uchaf ymhlith y rhai sy'n byw mewn aelwydydd heb waith.*
*- Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio ac mae disgwyliad oes iach yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU.*
*- Bydd y galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu yn y dyfodol wrth i strwythurau demograffig newid ac wrth i'r boblogaeth heneiddio*
*- Mae technoleg yn newid y ffordd rydym yn rhyngweithio â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn bodloni'r galw amdanynt*
*- Mae pobl 65+ oed yn fwy tebygol o ddioddef cyflyrau iechyd cronig ac afiachusrwydd, y ddau yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
*- Mae’r amcanestyniadau yn dangos cynnydd sylweddol yn y galw yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.*
*-Bydd cynnydd yn y risgiau o ran newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru gyfan, ond mae rhai pobl ac ardaloedd yn arbennig o agored i newid, gyda pherygl o waethygu anghydraddoldebau.*

**Byddwn yn mynd ati drwy**:
✓ Anelu i gadw pobl yn iach ac annibynnol cyhyd â phosib trwy ail-alluogi.
✓ Cefnogi'r farchnad gofal cartref ansefydlog ac ymateb i’r cynnydd yn y galw am ofal cartref a’r cymhlethdodau sydd ar gynnydd.
✓ Defnyddio technoleg gynorthwyol lle bo'n briodol i gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol.
✓ Helpu i atal anghydraddoldebau economaidd rhag datblygu ymhellach yn ein cymunedau trwy greu a chynnal cyflogaeth ddiogel i'n preswylwyr.
✓ Meithrin gallu drwy'r Grŵp Cydnerth Cymunedol drwy gefnogi cryfderau cymunedau fel eu bod yn ffynnu ac yn dod yn wydn, nawr ac yn y tymor hir.

[4] Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021

✓ Bydd darparu cyngor ac arweiniad ar les, ac annog cynhwysiant cymunedol a darparu cymorth i bobl ifanc heb waith neu'r rheini sy'n economaidd anweithgar, yn gwella'u gobaith o gael hyd i waith a chefnogi eu lles yn y tymor hir.
✓ Darparu cymorth i atal digartrefedd.

## Integreiddio

Sut mae'r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif:***

- Yn aml, mae cyswllt rhwng yr anghydraddoldebau iechyd, tai ac addysg sy'n bodoli yn ein cymunedau. Gall ansawdd tai effeithio ar iechyd a gall iechyd gwael effeithio ar berfformiad addysgol a datblygu sgiliau.

***Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu:***

- Bydd cefnogi plant a theuluoedd i gael cyfle teg mewn bywyd, beth bynnag yw eu tarddiad ethnig, crefydd, incwm, rhyw neu allu yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial a chreu Torfaen sy'n fwy cyfartal.

***Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol:***

- Bydd cefnogi gallu cymunedol a'i gryfderau yn helpu i gefnogi cymunedau cydlynus a chefnogol.
- Bydd sicrhau bod y math cywir o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn cefnogi anghenion y gymuned.
- Mae rhaglenni tai â chymorth yn galluogi annibyniaeth fel y gall pobl barhau i fyw yn eu cymunedau a theimlo'n rhan ohonynt.

***Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i'r amgylchedd lleol:***

- Mae gan effeithiau newid yn yr hinsawdd y potensial i gynyddu anghydraddoldebau ymhellach o fewn ein cymunedau a chael mwy o effaith ar grwpiau bregus. Bydd rhai cymunedau hefyd mewn mwy o berygl yn sgil newid yn yr hinsawdd oherwydd ble maen nhw wedi'u lleoli. Bydd cymryd camau ataliol i liniaru risgiau newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at les cenedlaethau'r dyfodol.
- Bydd sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da, a bod adnoddau naturiol Torfaen mewn cyflwr da fel y gallant gefnogi lles yn y ffordd orau, yn eu helpu i gael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Er y bydd gaeafau mwynach yn helpu i leihau'r tanwydd sy'n cael ei ddefnyddio, rydym yn gwybod mai gwael iawn yw effeithlonrwydd thermol llawer o'n stoc tai/adeiladu, sy'n anoddach ac yn ddrutach i'w cynhesu mewn tywydd oer neu oeri mewn tywydd poeth. Mae sicrhau trawsnewid cyfiawn i sero net yn hanfodol a byddwn yn parhau i hyrwyddo cynlluniau cartrefi cynnes a gweithio gyda phartneriaid yn Ninas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllun eco-flex yn rhanbarthol.

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd:***

- Bydd creu cyfleoedd gwaith cynhwysol a chefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig i gael gwaith teilwng, trwy ein cynnig dysgu oedolion a'r gymuned, yn creu Torfaen sy'n fwy cyfartal.

***Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol:***

- Bydd cadw pobl yn iach, yn byw yn y gymuned, ac allan o'r ysbyty am gyfnod hirach yn helpu pobl i fyw bywydau iachach, mwy annibynnol, a theimlo'n rhan o'u cymunedau.
- Bydd atal digartrefedd a darparu cyngor ar dai yn helpu sicrhau bod anghenion tai lleol yn cael eu diwallu ac yn cefnogi iechyd a lles yn y tymor hir.
- Gall cefnogi preswylwyr sy'n wynebu trafferthion ariannol i sicrhau'r incwm mwyaf posibl gyfrannu tuag at les meddyliol a chorfforol a rhoi cyfle i bobl wneud dewisiadau iachach.
- mynediad at wasanaethau cwnsela o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc yn cefnogi iechyd meddwl da.
- Gall darparu brecwast a chinio am ddim drwy wersylloedd hwyl a bwyd yng ngwyliau'r haf a sicrhau bod plant yn cael pryd o fwyd da yn yr ysgol, wella iechyd.
- Bydd Gwasanaethau Oedolion sy'n dechrau gyda'r unigolyn, yn helpu i sicrhau bod anghenion iechyd defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu diwallu.
- Gall mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wella teimladau diogelwch a chefnogi lles meddyliol a chorfforol.
- Gall darparu cefnogaeth i aelwydydd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd gyda baich dyledion, helpu i gyfrannu tuag at les meddyliol a chorfforol a bydd yn rhoi cyfle i bobl wneud dewisiadau iachach.

***Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef:***

- Bydd atal plant rhag dod i gyswllt â'r system cyfiawnder troseddol a gweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi cymunedau mwy cydlynus lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel.
- cefnogi gallu cymunedol a'i gryfderau drwy'r Grŵp Cydnerth Cymunedol yn helpu i gefnogi cymunedau cydlynus a chefnogol.
- Bydd sicrhau bod y math cywir o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn cefnogi anghenion y gymuned.
- Mae rhaglenni tai â chymorth yn galluogi annibyniaeth fel y gall pobl barhau i fyw yn eu cymunedau a theimlo'n rhan ohonynt.
- Bydd atal plant rhag dod i gyswllt â'r system cyfiawnder troseddol a gweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi cymunedau mwy cydlynus, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel.

***Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae bobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau***

- Mae defnyddio technoleg gynorthwyol lle bo hynny'n briodol, yn gallu cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol.

## Amcan 4 – *Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol*

**Byddwn yn:**

- ✔ Gweithio gyda chymunedau i sicrhau bod cyfleoedd chwaraeon cynaliadwy y gall pawb gael mynediad atynt drwy seilwaith a strwythurau clybiau cynaliadwy
- ✔ Grymuso cwsmeriaid a staff i ffynnu mewn byd sy’n fwyfwy digidol
- ✔ Adeiladu cymunedau trwy wella gwybodaeth a chyngor i breswylwyr er mwyn atal problemau
- ✔ Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli a'r niferoedd o bobl sy'n gwirfoddoli
- ✔ Gwella seilwaith teithio llesol er mwyn cefnogi'r broses o drosglwyddo o ddibyniaeth ar gar am deithiau byr
- ✔ Gwella diogelwch ar y ffyrdd
- ✔ Annog mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru lewyrchus | | Cymru o gymunedau cydlynus | | Cymru sy’n fwy cyfartal | | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| | Cymru gydnerth | | Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru iachach | | **Allwedd- Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae’r amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:**

Mae'r gallu i deithio yn bwysig iawn i leihau unigrwydd ac unigedd ac mae'n gallu cefnogi lles meddyliol. Gallai gwella trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau cerdded a beicio helpu pobl i ddod o hyd i waith neu i gael hyfforddiant. Hefyd, mae teithio llesol yn cefnogi ffyrdd iach o fyw.

Bydd cefnogi'r newid tuag at atebion trafnidiaeth mwy gwyrdd ar gyfer y rhanbarth yn helpu i leihau llygredd aer, a allai effeithio’n andwyol ar iechyd y rhai mwyaf bregus yn y boblogaeth. Bydd lleihau allyriadau trafnidiaeth drwy annog teithio mwy llesol, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

Mae teimlo’n ddiogel a medru symud o amgylch yn hawdd, i gael plant i’r ysgol, teithio i’r gwaith a byd hamdden a chysylltu â ffrindiau a theulu yn bwysig os yw cymunedau am ffynnu a bod yn gynhwysol. Gall cysylltiadau da o ran trafnidiaeth hefyd helpu pobl i gyrraedd cefn gwlad am resymau hamdden ac i ymweld ag atyniadau hanesyddol, felly’n helpu diwylliant lleol i fynnu.

Mae cefnogi cymunedau i fod yn gynhwysol yn ddigidol yn rhoi cyfleoedd i bobl a busnesau gysylltu â'i gilydd a chael mynediad at lawer o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Gall gwirfoddoli fod yn ffordd dda o gwrdd â phobl newydd, cysylltu â'u cymunedau a chyfrannu'n gadarnhaol at eu lles. Gall cyfleoedd gwirfoddoli, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â gwella gwytnwch yr amgylchedd naturiol hefyd gyfrannu at Dorfaen sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Mae cysylltiadau da a diogel o ran trafnidiaeth, yn chwarae rhan bwysig o ran gwneud Torfaen yn lle da i gynnal busnes, yn nhermau symud nwyddau, gwasanaethau, a deunyddiau crai a phobl, a bydd annog pobl i ddefnyddio cerbydau ag allyriadau isel iawn yn helpu i hyrwyddo cymdeithas arloesol, carbon isel.

Bydd sicrhau bod cyfleoedd cynaliadwy i wneud chwaraeon y gall pawb gymryd rhan ynddynt drwy strwythurau clybiau cynaliadwy, yn cefnogi iechyd a diwylliant da yn lleol yn Nhorfaen.

## Cynnwys

**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i:**

- ✓ Ymgynghori â'n cymunedau ynghylch y Map Rhwydwaith Teithio Llesol er mwyn helpu i benderfynu ble oedd angen llwybrau newydd.
- ✓ Gwrando ar ddisgyblion, ysgolion a rhieni wrth ddatblygu cynlluniau teithio ysgolion.
- ✓ Ymgysylltu â Fforwm Mynediad Torfaen i sicrhau bod ein dulliau teithio llesol yn cynnwys pawb.
- ✓ Trafod eu hanghenion gyda'r clybiau chwaraeon.

**I'n helpu i gynnwys pobl yn ein gwaith, byddwn yn**

- ✓ Parhau i gynnal sesiynau galw heibio gydag ysgolion fel y gall disgyblion helpu i lywio datblygiad cynlluniau teithio i'r ysgol. Byddwn hefyd yn gofyn i rieni am eu barn.
- ✓Ymgynghori ag aelodau, y gwasanaethau brys a lle y bo'n briodol, yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus pan fyddwn yn cyflwyno mesurau peirianneg diogelwch ar y ffyrdd
- ✓ Parhau i weithio gydag ysgolion i gyflawni mentrau diogelwch ar y ffyrdd gan gynnwys dysgu plant sut i groesi'r ffyrdd yn ddiogel, a hyfforddiant beicio yn ôl y safonau cenedlaethol.
- ✓ Cyfeirio pobl i wefan "Cysylltu Torfaen" er mwyn cael hyd i gyfleoedd gwirfoddoli sy'n addas i'r gwirfoddolwyr a hysbysebu digwyddiadau lleol.

## Cydweithio

**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i:**

- ✓ Weithio gyda chlybiau chwaraeon i ddeall eu hanghenion.
- ✓ Gweithio gyda'r bwrdd iechyd a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen i ddeall anghenion y gymuned a chreu gwefan "Cysylltu Torfaen.

**I gyflawni ein camau byddwn yn gweithio gyda:**

- ✓ Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, i ddarparu mwy o isadeiledd gwefru cerbydau trydan.
- ✓ Darparwyr telegyfathrebu, i leihau gwaharddiad digidol drwy wella band eang a signal ffôn symudol.
- ✓ Partneriaid, i gyflwyno Rhwydweithiau Mynediad Di-wifr Pellter Hir i wella'r rheolaeth yng nghanol ein trefi.

✓ Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, i gynyddu cyfleoedd gwirfoddoli cymunedol a gwirfoddolwyr.
✓ Clybiau chwaraeon, gan ddarparu cyllid i'w cefnogi ddatblygu eu cyfleusterau a ffynnu.
✓ Partneriaid mewnol ac allanol, i ddatblygu cyfleusterau chwaraeon a seilwaith i ddiwallu anghenion clybiau a chymunedau.

## Atal

Gall mwy o gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus helpu i fynd i'r afael â materion fel tagfeydd, gwella ansawdd aer a hybu iechyd da.

**Byddwn yn mynd ati drwy**:

✓ Weithio gydag ysgolion i annog teithio llesol yn hytrach na theithio mewn ceir sy'n gallu cyfrannu at lygredd aer ac allyriadau carbon.
✓ Buddsoddi mewn teithio llesol sy'n gallu gwella iechyd a helpu poblogaeth sy'n heneiddio i gadw'n iachach am gyfnod hirach,
✓ Bydd sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn fwy aml a'i fod yn fwy cydgysylltiedig, yn cynnwys gwella Gorsaf Drenau Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd, yn cynnig dewis gwell o gymharu â mynd mewn car.
✓ Bydd cyflawni ymyriadau sy'n gwella diogelwch ar y ffyrdd yn atal problemau rhag codi, ac yn gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.
✓ Cefnogi newid i gerbydau allyriadau isel, yn cynnwys gosod seilwaith gwefru yn ein cymuned.
✓ Cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith chwaraeon cynaliadwy a strwythurau clybiau sy'n addas i'r dyfodol.
✓ Helpu i adeiladu cymunedau cryf drwy gefnogi cyfleoedd gwirfoddoli drwy wefan "Cysylltu Torfaen".

## Tymor hir

Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein hamcan, rydym wedi ystyried yr heriau a chyfleoedd hirdymor a allai effeithio ar gysylltu pobl a chymunedau.

**Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru[5] yn tynnu sylw at y canlynol:**

- Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at sut mae allgau digidol yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau mewn cymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pobl o gymunedau Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig, a thrigolion mewn tai cymdeithasol
- Mae dibyniaeth gynyddol ar dechnolegau digidol o fewn cymdeithas yn bygwth ehangu'r anghydraddoldebau a achosir gan allgau digidol
-Mae'r nifer sy'n mynd ati i brynu cerbydau trydan wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf
- Mae allyriadau o bibellau mwg (ecsôsts) wedi gostwng yn sylweddol yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf, ond mae lefelau mater gronynnol o bibellau mwg yn parhau i fod yn uchel a rhagwelant y byddant yn cynyddu
- Mae ymddygiadau a phatrymau teithio yn newid yn y DU
-Bydd y galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu yn y dyfodol wrth i strwythurau demograffig newid, wrth i'r boblogaeth heneiddio

[5] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021

-Wrth i bobl ddefnyddio’r rhyngrwyd a chael mwy o fynediad ar lein yn ystod y ddegawd diwethaf, gwelwyd twf yn nifer y gwasanaethau cyhoeddus a gyrchir gan ddefnyddwyr digidol

**Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru [6], prif beryglon:**

- Difrod i seilwaith allweddol gan gynnwys ynni, trafnidiaeth, dŵr a TGCh, yn enwedig yn sgil llifogydd cynyddol ac erydu arfordirol.

**Byddwn yn mynd ati drwy**:

✓ Wella hybiau trafnidiaeth pwysig fel Gorsaf Pont-y-pŵl a’r Dafarn Newydd, er mwyn helpu Torfaen ar ei siwrnai i fod yn ddi-garbon.

✓ Gosod seilwaith gwefru yn ein cymunedau i'n cefnogi i ddiwallu ein hanghenion teithio yn y dyfodol.

✓ Gwella profiadau cwsmeriaid drwy uno systemau ac atebion technolegol yn well i gyfrannu at wasanaethau cyhoeddus diogel a chadarn yn y tymor hir, sy'n addas i'r dyfodol.

✓ Gwella seilwaith a chyfleusterau chwaraeon i gefnogi iechyd da yn y tymor hir.

✓ Ystyried hinsawdd sy’n newid a’i effeithiau yn y ffordd yr ydym yn mynd ati i gynllunio, i gefnogi ein cymunedau a’r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i fod yn wydn.

## Integreiddio

Sut mae’r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a’r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif:***

- Gall teithiau ‘yno ac yn ôl’ gyfrannu at dagfeydd lleol. Trwy weithio gydag ysgolion, disgyblion a rhieni i ddatblygu cynlluniau teithio i'r ysgol gallwn annog teithio mwy llesol.
- Bydd cefnogi disgyblion i ddysgu am fanteision teithio llesol o ran iechyd a'r amgylchedd yn eu helpu i ddatblygu'n ddinasyddion sy'n gyfrifol yn fyd-.
- Bydd sicrhau bod ysgolion wedi'u cysylltu'n ddigidol ac yn dechnolegol yn cefnogi dulliau addysgu modern.

***Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu:***

- Bydd cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau yn ymwneud â theithio yn annog perchnogaeth.
- Bydd llwybrau teithio llesol diogel yn helpu cymunedau i fod yn hyfyw a ffyniannus ac iddynt gysylltiadau da.

***Mynd i’r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon:***

- Mae teimlo’n ddiogel a'r gallu symud o amgylch yn hawdd, i gael plant i’r ysgol, teithio i’r gwaith a byd hamdden a chysylltu â ffrindiau a theulu yn bwysig os yw cymunedau am ffynnu a bod yn gynhwysol
- Bydd gwella diogelwch ar y ffyrdd yn galluogi cymunedau i gysylltu â'i gilydd yn ddiogel.

[6] Tystiolaeth ar gyfer y trydydd Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU (CCRA3). Crynodeb i Gymru. Dr. Alan Netherwood. Netherwood Sustainable Futures 2022.

- Mae cefnogi cymunedau sy’n gynhwysol yn ddigidol yn rhoi cyfleoedd i bobl gysylltu â'i gilydd a chael mynediad at nifer o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt

***Ymateb i’r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i’r amgylchedd lleol:***

- Bydd ystyried hinsawdd sy’n newid a’i effeithiau, yn y ffordd yr ydym yn mynd ati i gynllunio, yn cefnogi ein cymunedau a’r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, i fod yn wydn.
- Bydd lleihau allyriadau trafnidiaeth drwy annog teithio mwy llesol ac annog cerbydau allyriadau isel iawn yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Mae ein Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd Cymunedol yn rhoi cyfleoedd i bobl leol ein helpu i ddod o hyd i atebion i leihau a gwrthbwyso nwyon tŷ gwydr yn Nhorfaen. wedi creu llwyfan ar-lein i'r cyhoedd rannu eu syniadau am yr her allyriadau sero-net.

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd:***

- Trwy Lais Busnes Torfaen byddwn yn parhau i gefnogi busnesau lleol wrth iddynt ddatblygu a thyfu, a deall eu hanghenion yn well. Bydd ein Siop Un Stop hefyd yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer teithiau cwsmeriaid busnes.
- Mae cysylltiadau trafnidiaeth da a diogel yn rhan bwysig o sicrhau bod Torfaen yn lle da i gynnal busnes. Maent yn galluogi symud nwyddau, gwasanaethau, deunyddiau crai a phobl
- Gallai gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau cerdded a beicio helpu i gefnogi pobl i ddod o hyd i waith neu i gael hyfforddiant.

***Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol:***

- Mae'r gallu i deithio yn bwysig iawn i leihau unigrwydd ac unigedd ac mae'n gallu cefnogi lles meddyliol.
- Gall cysylltiadau da yn nhermau trafnidiaeth, helpu pobl i gael mynediad i gyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan helpu pobl i gadw’n iach ac actif.
- Gall cefnogi’r newid tuag at atebion gwyrdd i faterion trafnidiaeth yn y rhanbarth helpu i leihau llygredd aer, a all effeithio’n andwyol ar iechyd y mwyaf bregus yn y boblogaeth sy’n dod i gyswllt ag ef.
- Gall darparu cyfleoedd teithio llesol helpu Torfaen i drosglwyddo i allyriadau carbon sero net a chefnogi ffyrdd iach o fyw.

***Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef:***

- Mae cysylltiadau da o ran trafnidiaeth, yn galluogi pobl i gyrchu cefn gwlad am resymau hamdden, i ymweld ag atyniadau hanesyddol a diwylliannol ac i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon a hamdden.

***Darparu gwasanaethau effeithiol sy’n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu’r ffyrdd y mae bobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau***

- Bydd grymuso cwsmeriaid a staff i ffynnu mewn byd sy’n fwyfwy digidol yn helpu i gysylltu pobl a chymunedau.

## Amcan 5 – *Ymateb i’r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i’r amgylchedd lleol*

**Byddwn yn:**

- ✔ Cynyddu uchelgais ein Cynllun Rheoli Carbon ar gyfer ein hadeiladau a gosod targedau dros dro i gyflymu'r cynnydd.
- ✔ Datblygu rhaglen i amnewid y fflyd i un sy’n ddi-garbon.
- ✔ Ymwreiddio effaith carbon yn ein penderfyniadau wrth fynd ati i brynu.
- ✔ Cynyddu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ein stad ein hunain.
- ✔ Mabwysiadu targedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol sy’n uchelgeisiol, yn ein Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- ✔ Deall faint o garbon sy'n cael ei storio yn y tir rydyn ni'n berchen arno i gyfeirio ein hadnoddau yn well, fel y gallwn gael yr effaith fwyaf.
- ✔ Gwella’r ffordd yr ydym yn rheoli ein seilwaith gwyrdd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.
- ✔ Hyrwyddo bioamrywiaeth i’r eithaf drwy’r broses gynllunio.
- ✔ Cyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.
- ✔ Deall peryglon yr hinsawdd a gweithio gyda phartneriaid i ddechrau datblygu ymatebion effeithiol i addasu’n lleol.
- ✔ Hyfforddi ein staff a'n Haelodau Etholedig i ddeall eu rôl yn y daith sero net ac ymateb i'r argyfwng natur.
- ✔ Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.
- ✔ Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni strategaeth y Cyngor ar sbwriel a thipio anghyfreithlon.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (gwyrdd-felyn) | Cymru lewyrchus | (porffor) | Cymru o gymunedau cydlynus | (coch tywyll) | Cymru sy’n fwy cyfartal | (glas) | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| (oren) | Cymru gydnerth | (glas tywyll) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | (coch) | Cymru iachach | | **Allwedd-Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae’r amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:**

Mae adnoddau naturiol iach, sy'n gweithio'n dda, yn sail i iechyd. Maent yn darparu lle i bobl fod yn actif, cynhyrchu ocsigen a chylchu maetholion, helpu i reoleiddio’r hinsawdd, storio carbon a chwarae rôl o ran rheoli dŵr (lleihau’r perygl o lifogydd). Maent hefyd yn gallu amsugno llygryddion a gludir yn yr awyr sy’n niweidiol i iechyd a bod yn ffynhonnell beillio sy’n bwysig iawn o ran cynhyrchu bwyd.

Mae gan y peryglon i’r iechyd sy’n gysylltiedig â hinsawdd sy’n newid y potensial i effeithio ar y mwyaf bregus mewn cymdeithas, felly mae angen i ni fod yn barod.

Mae cerbydau sy'n defnyddio tanwydd ffosil yn cael effaith negyddol iawn ar ein hamgylchedd a'n hiechyd, yn newid yr hinsawdd ac yn cynyddu llygredd, felly mae angen i ni ystyried ffyrdd gwahanol o ddiwallu ein hanghenion teithio. Mae teithio mwy llesol yn golygu llai o allyriadau carbon ac mae hefyd yn dda i'n hiechyd am ei fod yn lleihau llygredd aer ac yn ein cadw'n actif.

Gall defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i helpu cymunedau i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd hefyd feithrin cymunedau cydlynus cryf a diogel.

Bydd lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ar y dirwedd yn cynnwys mannau sy'n denu tipio anghyfreithlon, yn sicrhau bod adnoddau naturiol Torfaen yn fwy diogel ac yn fwy deniadol i bobl eu mwynhau.

Bydd cymryd camau i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn lleol yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang. Bydd gwella sut mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n lleol yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur byd-eang.

Bydd cymryd camau i leihau gwastraff, gwella effeithlonrwydd dŵr ac ynni a lleihau allyriadau o gerbydau yn helpu'r cam o drawsnewid i gymdeithas 'carbon isel' sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol a theg.

Mae'r sector gwaith ynni ac amgylchedd wedi cael ei nodi fel un sy'n bwysig i ffyniant rhanbarth dros y degawdau nesaf, gyda'r potensial i gyfrannu at economi leol Torfaen a chynnig swyddi i genedlaethau'r dyfodol.

Gall datblygu prosiectau ynni cymunedol ddarparu incwm defnyddiol y gellir ei fuddsoddi yn ôl i'r lleoedd y mae pobl yn byw.

Mae prynu'n fwy lleol yn golygu llai o allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ond mae hefyd yn cefnogi'r economi leol.

Bydd gwella rheolaeth dros ein adnoddau naturiol yn cefnogi bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ac yn helpu i'n cynorthwyo i addasu i enwid yn yr hinsawdd ee trwy rheoli dŵr yn y dirwedd a lleihau tymheredd sydd ar gynnydd.

Bydd sicrhau bod gan bawb yn ein cymunedau fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da a'i fuddion cysylltiedig, yn cyfrannu at Dorfaen fwy cyfartal.

Bydd cymryd camau i liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn helpu i gefnogi hunaniaeth ddiwylliannol leol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd. Mae gan ddigwyddiadau tywydd eithafol y potensial i effeithio ar hyfywedd gweithgareddau, gwyliau a digwyddiadau awyr agored. Mae ganddyn nhw hefyd y potensial i effeithio ar yr adeiladau hanesyddol a'r trefluniau. Yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol mae gan Dorfaen gysylltiadau cryf â chynhyrchu ynni. Bydd archwilio cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio yn paratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol glanach, gwyrddach.

Mae amgylchedd naturiol Torfaen dan ddylanwad cryf ei orffennol diwydiannol ac mae'r dirwedd benodol hon, sy'n bwysig i'n diwylliant heddiw, hefyd yn adnodd ecolegol sylweddol y mae angen ei warchod a'i wella.

# Cynnwys

**I’n helpu i ddatblygu ein gweledigaeth, ein blaenoriaethau a’n hamcanion, aethom ati i:**

- ✓ Ymateb i aelodau etholedig a wnaeth ddatgan argyfwng hinsawdd a natur.
- ✓ Cynnwys swyddogion o bob cwr o’r cyngor yn cynnwys yr Arweinwyr, y Fforwm Datblygu Polisïau a’r Fforwm Penaethiaid Gwasanaethau i ddatblygu’r Cynllun Datblygu ar gyfer yr Argyfwng Hinsawdd a Natur.
- ✓ Derbyn argymhellion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Busnes.
- ✓ Gofyn i'n cymunedau sut y gallent helpu i leihau allyriadau carbon ar draws y fwrdeistref.
- ✓ Holi barn ein cymunedau ynghylch y camau a awgrymwyd yn y cynllun gweithredu drafft ar gyfer yr argyfwng hinsawdd a natur, a pha gamau eraill y maen nhw’n credu y dylid eu cymryd.

**I’n helpu i gynnwys pobl yn ein gwaith, byddwn yn:**

✓ Cefnogi ein cymunedau ar y daith sero net a darparu cyfleoedd i gyfrannu tuag at ein hamcanion yn yr argyfwng hinsawdd a natur.

✓ Gweithio gyda'n Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd Cymunedol i nodi rhwystrau a datrysiadau i leihau allyriadau carbon.

P Creu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl gymryd rhan yn y camau i reoli ein hadnoddau naturiol.

# Cydweithio

**I’n helpu i ddatblygu’r amcan hwn, aethom ati i:**

✓ Ddefnyddio argymhellion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Materion Busnes i lunio’r datblygu.

✓ Cynnwys swyddogion o bob cwr o’r cyngor yn cynnwys yr Arweinwyr, y Fforwm Datblygu Polisïau a’r Fforwm Penaethiaid Gwasanaethau.

**I gyflawni ein camau byddwn yn gweithio gyda:**

✓ Ein grŵp cymorth swyddogion i gynnwys pob rhan o'r Cyngor yn ein taith

✓ Is-grŵp y cabinet i helpu i chwalu unrhyw rwystrau.

✓ Llywodraeth Cymru i osod man cychwyn ar gyfer ein siwrnai sero net

✓ Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol.

✓ Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol i ddatblygu Cynllun Llesiant Gwent sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

# Atal

<u>Lliniaru’r hinsawdd / Datgarboneiddio:</u>

Mae’r allyriadau blaenorol yn golygu y bydd yr hinsawdd yn parhau i newid yn ystod y degawdau nesaf. Mae’r hyn y byddwn yn ei wneud nawr yn pennu faint y bydd yr hinsawdd yn newid. Mae angen cadw’r tymheredd islaw 1.5 °C os ydym am osgoi canlyniadau eithafol.

**I liniaru’r perygl o newid yn yr hinsawdd a chwarae ein rhan yn yr her fyd-eang, byddwn yn:**

✓ Anelu at ddod yn garbon sero net erbyn 2030 a chefnogi ac annog ein cymunedau, ein preswylwyr a'n busnesau i ddod yn garbon sero net erbyn 2050
✓ Deall faint o garbon sy’n cael ei storio yn y tir yr ydym yn berchen arno i gyfeirio’n hadnoddau yn well er mwyn cael yr effaith fwyaf.
✓ Sicrhau bod ein hasedau naturiol yn cael eu rheoli'n dda ac mewn cyflwr da fel y gall cenedlaethau'r dyfodol elwa ar eu manteision i’w lles.
✓ Cynyddu maint y gwastraff cartref sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio yn Nhorfaen, er mwyn helpu i fynd i'r afael â defnyddio nwyddau a gwasanaethau mewn modd mwy cynaliadwy.

Ymaddasu i’r Hinsawdd:
Mae carbon deuocsid sy'n cael ei ryddhau oherwydd gweithgarwch dynol yn achosi i'r hinsawdd newid. Mae tymheredd y ddaear eisoes wedi cynyddu mwy na 1°C. Rydym eisoes yn gweld newid yn yr hinsawdd. Yn y dyfodol, gall Cymru ddisgwyl mwy o lifogydd, mwy o donnau gwres, mwy o sychder a phrinder dŵr. Bydd mwy o gynefinoedd sy’n bwysig i fywyd gwyllt yn diflannu a bydd mwy o danau gwyllt. Bydd effeithiau lleol a byd-eang yn cynyddu’r risgiau i iechyd, seilwaith, cadwyni cyflenwi, ein treftadaeth ddiwylliannol a’r amgylchedd.
**I ymaddasu i’r hinsawdd sy’n newid, byddwn yn**:
✓ Deall risgiau i’r hinsawdd ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddechrau datblygu ymatebion effeithiol i addasu’n lleol.

Ymateb i’r Argyfwng Natur:
Mae pwysau i ddefnyddio tir, diffyg rheolaeth, rhywogaethau ymledol, troseddau ar y dirwedd a newid yn yr hinsawdd yn achosi i gynefinoedd ddiflannu a chwalu. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ein hadnoddau naturiol. Mae adnoddau naturiol yn hanfodol i’n llesiant am eu bod yn darparu’r pethau sylfaenol sydd eu hangen arnom, fel bwyd, coed, a dŵr glân. Maen nhw'n darparu swyddi yn y sectorau amaethyddol, coedwigaeth a thwristiaeth, ac mae cael mynediad at fannau gwyrdd yn bwysig ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol da. Os na fyddwn yn cymryd camau ataliol i arafu dirywiad bioamrywiaeth a gostyngiad yng ngwytnwch ecosystemau drwy fynd i’r afael â’r brif achos nawr, ni fydd cenedlaethau’r dyfodol yn gallu elwa o’u manteision i’w llesiant.
**Byddwn yn:**
✓ Nodi blaenoriaethau i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yn y fwrdeistref drwy ddatblygu Cynllun Gweithredu i Adfer Natur lleol.
✓Gwella’r modd y reolir ein seilwaith gwyrdd ar dir sy’n eiddo i’r Cyngor.

✓ Hyrwyddo bioamrywiaeth i’r eithaf drwy’r broses gynllunio.

## Tymor hir

Bydd cymryd camau i leihau'r allyriadau carbon ac i baratoi ar gyfer effeithiau hinsawdd sy'n newid yn cyfrannu at les cenedlaethau'r dyfodol.

***Rydym wedi defnyddio Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru[7] ac Adroddiad Cymru ar yr Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd[8] i lywio ein dull gweithredu:***

[7] Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021
[8] Tystiolaeth ar gyfer y trydydd Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU (CCRA3). Crynodeb i Gymru. Dr. Alan Netherwood. Netherwood Sustainable Futures 2022.

- *Yn y dyfodol, gall Cymru ddisgwyl mwy o lifogydd, mwy o donnau gwres, mwy o sychder a phrinder dŵr. Bydd cynefinoedd sy'n bwysig i fywyd gwyllt yn diflannu a gellir disgwyl mwy o danau gwyllt. Bydd effeithiau'r hinsawdd yn cynyddu risgiau i iechyd, seilwaith, cadwyni cyflenwi, ein treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd.*
- *Bydd risgiau cynyddol yn nhermau'r hinsawdd yn effeithio ar Gymru gyfan, ond mae rhai pobl ac ardaloedd yn arbennig o fregus. Mae gan hyn y potensial i ehangu anghydraddoldebau.*
- *Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio nwyddau a gwasanaethau yn cyfrannu at ddisbyddu adnoddau naturiol yn fyd-eang.*
- *Mae gwytnwch ecosystemau yng Nghymru yn dirywio ac mae rhai rhywogaethau'n prinhau ac mewn perygl.*
- *Mae'r nifer sy'n mynd ati i brynu cerbydau trydan wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.*

**Byddwn yn mynd ati drwy:**

✓ Ddeall risgiau yn sgil yr hinsawdd yn well, a nodi ble y gallwn weithio gyda phartneriaid i fynd ati i addasu'n effeithiol yn lleol er mwyn ein helpu i fod yn fwy parod.

✓ Chwarae ein rhan i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang drwy gynyddu uchelgais ein Cynllun Rheoli Carbon ar gyfer ein hadeiladau a thrwy osod targedau dros dro i gyflymu'r cynnydd.

✓ Cymryd camau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff

✓ Ystyried effaith ein penderfyniadau ar garbon wrth fynd ati i brynu.

✓ Sicrhau bod adnoddau naturiol gwerthfawr Torfaen, a'r bioamrywiaeth y maen nhw'n ei chefnogi yn cael eu diogelu a'u gwella, fel y gall cenedlaethau'r dyfodol gael blas ar eu buddion i'w lles.

✓ Byddwn yn gosod mwy o wefrwyr EV, a byddwn hefyd yn datblygu rhaglen i newid ein fflyd i un carbon sero net, i'n helpu i leihau ôl-troed carbon fflyd y cyngor ei hun.

## Integreiddio

Sut mae'r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif:***

- Dylunio ein hysgolion newydd gan ystyried datblygiadau sero net. Rydyn ni eisoes yn gweithio ar ein hysgol Passivhaus gyntaf yng Nghwmbrân.
- Bydd creu gwelliannau i ddŵr ac effeithlonrwydd ynni ar draws ein hysgolion yn cyfrannu at ein taith garbon sero net.
- Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i rannu negeseuon ymwybyddiaeth gwastraff ac ar weithgareddau ymwybyddiaeth ynni. Byddwn hefyd yn gweithio gydag ysgolion i annog casglu hadau a thyfu eginblanhigion ar dir ysgolion.

***Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu:***

- Gallai'r argyfwng costau byw olygu bod mwy o bobl yn wynebu tlodi tanwydd, a gall hyn effeithio ar fywyd teuluol. Mae trawsnewid i sero net yn hanfodol. Mae angen i ni sicrhau nad ydym yn gadael unrhyw un ar ôl. Byddwn yn parhau i hyrwyddo cynlluniau cartref cynnes a gweithio gyda phartneriaid ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllun eco-flex rhanbarthol.

- Bydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da, a bod adnoddau naturiol Torfaen mewn cyflwr da fel y gallant gefnogi'u lles yn y ffordd orau posib, yn eu helpu i gael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Bydd sicrhau bod ein hasedau naturiol yn cael eu rheoli'n dda ac mewn cyflwr da yn golygu y gall cenedlaethau o blant a phobl ifanc elwa ar eu manteision i'w llesiant.

***Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon:***

- Mae gan effeithiau newid hinsawdd botensial i gynyddu anghydraddoldebau ymhellach yn ein cymunedau a chael mwy o effaith ar grwpiau bregus. Bydd rhai cymunedau hefyd yn wynebu mwy o berygl yn sgil hinsawdd sy'n newid oherwydd ble maen nhw'n byw.
- Mae'r cynnydd yng nghostau ynni yn golygu bod mwy o bobl yn ein cymunedau yn wynebu tlodi tanwydd. Er y bydd gaeafau mwynach yn helpu i leihau tanwydd a ddefnyddir. Gwyddwn fod effeithlonrwydd ynni yn llawer o'n stoc dai yn wael, felly'n ei wneud yn anoddach ac yn ddrytach i'w wresogi mewn tywydd oer neu oeri mewn tywydd poeth. Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo cynlluniau cartref cynnes a gweithio gyda phartneriaid ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllun eco-flex yn rhanbarthol.
- Bydd lleihau llygredd aer yn yr awyr agored, a allai effeithio'n andwyol ar iechyd y rhai mwyaf bregus yn y boblogaeth, yn helpu i greu Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Bydd sicrhau bod gan bawb yn ein cymunedau fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da a'r buddion sy'n gysylltiedig â lles, yn cyfrannu at Dorfaen fwy cyfartal.

***Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol:***

- Gall darparu mwy o wasanaethau yn ddigidol leihau'r angen i deithio, a'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â theithio.
- Mae gan deithio llesol ran bwysig i'w chwarae wrth gysylltu ein cymunedau
- Gall darparu cyfleoedd i gysylltu â byd natur, yn cynnwys gwneud hynny drwy wirfoddoli, helpu i ddod â phobl at ei gilydd.
- Mae Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd Cymunedol Torfaen yn cynnwys pobl leol o bob cefndir sydd â diddordeb mewn dod o hyd i atebion i leihau a gwrthbwyso nwyon tŷ gwydr yn Nhorfaen. Fel llais eu cymunedau, byddant yn gweithio gyda'r Cyngor i nodi rhwystrau a datrysiadau i leihau allyriadau carbon
- Gall seilwaith gwyrdd helpu i gefnogi ein gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol e.e. rheoleiddio'r hinsawdd a rheoli dŵr (lleihau'r perygl o lifogydd).

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd:***

- Yn ôl Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae'r sector ynni a'r sector gwaith amgylchedd yn bwysig i ffyniant rhanbarth dros y 10 - 20 mlynedd nesaf. Mae gan hyn y potensial i gyfrannu at economi leol Torfaen a sicrhau swyddi i genedlaethau'r dyfodol.
- Er mwyn sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau datgarboneiddio cywir i gefnogi'r daith datgarboneiddio, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Choleg Gwent i adnabod a mynd i'r afael â bylchau yn y sgiliau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

- Mae potensial sylweddol am ynni adnewyddadwy wedi'i nodi ar draws Gwent. Pe bai hyn yn cael ei wireddu, fe allai gefnogi’r daith ddi-garbon a chyfrannu at ffyniant lleol. Byddwn yn annog busnesau i arloesi mewn meysydd sydd o flaenoriaethau cyhoeddus fel newid yn yr hinsawdd.

***Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol:***

- Mae adnoddau naturiol iach, sy'n gweithio'n dda, yn sail i iechyd. Maent yn darparu lle i bobl fod yn actif, cynhyrchu ocsigen a chylchu maetholion, helpu i reoleiddio’r hinsawdd, storio carbon a chwarae rôl o ran rheoli dŵr (lleihau’r perygl o lifogydd). Maent hefyd yn gallu amsugno llygryddion a gludir yn yr awyr sy’n niweidiol i iechyd a bod yn ffynhonnell beillio sy’n bwysig iawn o ran cynhyrchu bwyd
- Mae gan peryglon i’r iechyd sy’n gysylltiedig â hinsawdd sy’n newid y potensial i effeithio ar y mwyaf bregus mewn cymdeithas, felly mae angen i ni fod yn barod
- Gall symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar danwydd ffosil arwain at welliannau yn ansawdd aer a gostyngiadau yn nifer y cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer
- Mae teithio llesol yn golygu nid yn unig llai o allyriadau carbon ond mae hefyd yn dda i’n hiechyd drwy leihau llygredd aer a’n cadw ni’n actif.
- Yn ogystal â chefnogi teithio llesol, mae ein rhwydweithiau o lwybrau beicio hefyd yn goridorau pwysig i fywyd gwyllt. Mae’r gallu i symud rhwng cynefinoedd darniog yn allweddol i oroesiad llawer o blanhigion ac anifeiliaid.
- Mae cael mynediad ar fan gwyrdd yn bwysig ac yn dda i iechyd corfforol a meddyliol.

***Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef:***

- Mae gorffennol diwydiannol Torfaen yn dylanwadu’n gryf ar ei hamgylchedd naturiol, ac mae’r dirwedd amlwg, sy’n bwysig i’n diwylliant heddiw, hefyd yn adnodd ecolegol sylweddol sydd angen ei gwarchod a’i gwella.
- Bydd angen tir bob amser ar gyfer tai, cyflogaeth a chynhyrchu ynni, ond mae angen i ni wella’r ffordd yr ydym yn ystyried llesiant a chydnabod gwerth adnoddau naturiol gwydn, sy’n gweithio’n dda.
- Bydd dynodi Gwarchodfa Natur Leol newydd yn gwarchod tir sy'n arbennig o werthfawr i fyd natur ac yn darparu cyfleoedd i gynnwys y gymuned.
- Datblygu Seilwaith Gwyrdd, a Chanllawiau Bioamrywiaeth i ddatblygwyr i'w helpu i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn eu gwaith.
- Mae tirwedd ac adnoddau naturiol eiconig Torfaen yn rhan bwysig o ddiwylliant a threftadaeth Torfaen.
- Mae gan ddigwyddiadau tywydd mwy eithafol y potensial i effeithio ar hyfywedd gweithgareddau a digwyddiadau awyr agored, mae ganddyn nhw hefyd y potensial i effeithio ar yr adeiladau hanesyddol a'r trefluniau. Bydd cymryd camau i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd yn helpu i gefnogi hunaniaeth ddiwylliannol leol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd.
- Yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol mae gan Dorfaen gysylltiadau cryf â chynhyrchu ynni, a bydd archwilio cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio yn paratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol glanach a gwyrddach.
- Bydd mynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd fel tipio anghyfreithlon, llosgi’n fwriadol a gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd sy'n achosi niwed i'n hadnoddau naturiol hefyd yn cyfrannu at sicrhau bod ein cymunedau yn fwy diogel a deniadol.

***Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau***

- Bydd creu ardal ar-lein i'r cyhoedd rannu eu syniadau ynghylch ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn ein helpu i ymateb i'r her allyriadau sero net.
- Mae angen i'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'n cwsmeriaid fod yn wydn i wrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Bydd datblygu ein dealltwriaeth o risgiau yn sgil yr hinsawdd yn ein helpu i baratoi ar gyfer effeithiau yn y dyfodol.

## Amcan 6 – *Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd*

**Byddwn yn:**

- ✔ Creu lleoedd gwydn, diogel a deniadol sy'n denu ac yn angori cwmnïau lleol
- ✔ Parhau i greu a chynnal cyflogaeth ddiogel i'n preswylwyr
- ✔ Creu economi cystadleuol ac arloesol
- ✔ Cefnogi busnesau yn Nhorfaen i chwarae rôl actif mewn cadwyni cyflenwi sectorau sydd o flaenoriaeth ranbarthol
- ✔ Creu cyfleoedd gwaith sy'n galw am sgiliau medrus i breswylwyr lleol
- ✔ Cefnogi arloesi ym myd busnes mewn blaenoriaethau cyhoeddus fel newid yn yr hinsawdd, gofal iechyd a chynhyrchiant a gweithgynhyrchu
- ✔ Bod yn gynhwysol yn gymdeithasol, gan gefnogi grwpiau bregus i fyd gwaith

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru lewyrchus | | Cymru o gymunedau cydlynus | | Cymru sy'n fwy cyfartal | | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| | Cymru gydnerth | | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru iachach | | **Allwedd-Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae'r amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:**

Mae gweithio yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd unigolyn ac mae economi sy'n ffynnu angen gweithlu iach.

Bydd cefnogi'r economi sylfaenol yn helpu i sicrhau bod gan bobl fynediad at y gwasanaethau bob dydd y maent yn dibynnu arnynt, fel darpariaeth iechyd a gofal a fydd yn cefnogi Torfaen iachach.

Mae cael ystod eang o sgiliau a chyfleoedd gwaith mewn cymunedau yn eu helpu i fod yn fwy gwydn yn sgil newidiadau yn yr economi.

Bydd y Parc Meddygol yn archwilio'r dechnoleg a'r technegau mwyaf newydd ochr yn ochr â'r Ysbyty Athrofaol, a bydd hyn yn galluogi i'r dysgu a datblygu meddygaeth a'r gwyddorau bywyd fynd rhagddo yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Bydd datblygu Prosbectws Buddsoddi i hyrwyddo adnewyddu a sefydlu tir diwydiannol newydd yn helpu busnesau i gynyddu masnach yn lleol a thramor, chefnogi arloesi lleol, yn enwedig mewn perthynas â'r sectorau gwaith yn y dyfodol, yn cynnig y potensial i fusnesau lleol gael mynediad i farchnadoedd byd-eang.

Bydd helpu busnesau i gydweithio mewn sectorau sy'n flaenoriaeth, gan gynnwys trwy gefnogaeth uniongyrchol i fusnesau sydd eisiau arloesi, a thrwy raglenni ehangu sgiliau i ddatblygu'r gweithlu ddatgarboneiddio, yn cyfrannu at ranbarth sy'n ffynnu.

Bydd prentisiaethau a lleoliadau gwaith ac addysg gymunedol berthnasol i oedolion yn creu a chynnal lefelau cyflogaeth uchel, a bydd codi dyheadau a chyflwyno rhaglenni cyflogadwyedd wedi eu targedu, yn cefnogi grwpiau bregus i symud i fyd gwaith.

Bydd creu cyfleoedd gwaith sy'n gynhwysol, a chefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig i gyd gwaith teilwng trwy ein cynnig i ddysgu oedolion a'r gymuned, yn helpu i greu Torfaen sy'n fwy cyfartal.

Bydd defnyddio Cynlluniau Creu Lleoedd mewn Canol Trefi i sbarduno buddsoddi cyfalaf a datblygiad parhaus safle adfywio'r British, yn cefnogi lleoedd diogel, gwydn, deniadol a chynhyrchiol.

Bydd cydlynu Partneriaeth Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth y Byd a rheoli Canolfan Treftadaeth y Byd yn darparu porth i Gymru ac yn cefnogi ardal o bwysigrwydd byd-eang.

Bydd angen tir ar gyfer cyflogaeth bob amser ond bydd cydnabod gwerth a phwysigrwydd ehangach adnoddau naturiol gwydn, sy'n gweithio'n dda i'n lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cefnogi lles ein cymunedau yn y tymor hir.

Gall y ffordd y byddwn yn rheoli ein hadnoddau naturiol helpu i gefnogi ein gallu i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a sicrhau bod Torfaen yn lle deniadol i gynnal busnes. Hefyd, mae llawer o swyddi'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol ac mae yna lawer o gyfleoedd i wella sgiliau lleol drwy'r amgylchedd. Yn ôl Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae'r sector amgylchedd ac ynni yn bwysig i ffyniant y rhanbarthau dros y ddau ddegawd nesaf. Yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol mae gan Dorfaen gysylltiadau cryf â chynhyrchu ynni. Bydd archwilio cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio yn paratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol glanach a gwyrddach.

Bydd gwyrddio canol ein trefi yn cyfrannu at eu gallu i ddod yn hybiau prysur i fyw, dilyn diddordebau hamdden a busnes.

Mae cael gwaith teilwng, rheolaidd sy'n talu'n dda yn rhoi digon o arian i bobl wneud y pethau y maen nhw'n eu mwynhau, yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

Gall manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n bodoli yn sgil amgylchedd naturiol ysbrydoledig a threftadaeth ddiwylliannol Torfaen, ddarparu cyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

# Cynnwys

**I'n helpu i ddatblygu ein hamcan, aethom ati i:**

- ✓ Ymgysylltu â'r gymuned fusnes trwy ddatblygu strategaeth yr Economi a Sgiliau. Cynhaliwyd gweithdai gyda Fforwm Economaidd Strategol Torfaen (sy'n cynnwys ein cyflogwyr mwyaf o bob rhan o'r sectorau) i ddatblygu'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r amcanion. Mae academyddion o Brifysgol Caerdydd hefyd yn gwirio er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau a'r amcanion yn briodol ac y byddent yn sbarduno'r newidiadau yr oeddem am eu gweld.
- ✓ Cyflwynwyd y weledigaeth drafft gerbron y pwyllgor Craffu a gwahoddwyd y Fforwm i gynnig sylwadau. Aeth y strategaeth ddrafft a'r cynllun gweithredu i gyfarfod fforwm arall, er mwyn cael sylwadau cyn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad gyda'r gymuned busnes ehangach.

**I'n helpu i gynnwys pobl yn ein gwaith, byddwn yn**

- ✓ Parhau i gefnogi busnesau lleol i ddatblygu a thyfu, a deall eu hanghenion yn well, a thrwy Lais Busnes Torfaen.
- ✓ Darparu un pwynt cyswllt ar gyfer teithiau cwsmeriaid busnes drwy ein Siop Un Stop
- ✓ Gweithio gyda'n partneriaid addysgol drwy'r grŵp Llwybrau Positif i edrych ar gyfleoedd i bobl ifanc symud ymlaen i fyd gwaith.

# Cydweithio

**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn rydym wedi:**

- ✓ Cydweithio gydag entrepreneuriaid, tirfeddianwyr, a chymunedau i ddatblygu cynlluniau creu lleoedd, fel bod ein trefi'n dod yn hybiau bywiog a fydd yn diwallu anghenion pobl o ddydd i ddydd.

**I gyflawni ein camau byddwn yn gweithio gyda:**

- ✓ Fforwm Economaidd Strategol Torfaen i nodi a sefydlu mannau arloesi ar draws y Fwrdeistref
- ✓ Drwy gydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos, bydd BIAAB, Llywodraeth Cymru a phrifysgolion lleol drwy fentrau fel Parc Meddygol y Gwyddorau Bywyd a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn helpu i sicrhau i'r eithaf bod y cyfleoedd gorau posib yn bodoli i fusnesau lleol ac i ddatblygu sgiliau.

# Atal

**Byddwn yn mynd ati drwy**:

✓ Weithio gyda busnesau i ragweld y sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol a galluogi pobl i ddod yn fedrus yn y meysydd hynny i gefnogi cadernid economaidd yn y dyfodol.

✓ Dod â busnesau newydd i Dorfaen drwy ein prosbectws buddsoddi i greu cyfleoedd gwaith i genedlaethau'r dyfodol sy'n byw yn Nhorfaen.

✓ Gweithio i gefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig i gael gwaith teilwng, drwy ein cynnig dysgu oedolion a'r gymuned i helpu i atal caledi economaidd.

## Tymor hir

Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein hamcan rydym wedi ystyried yr heriau a chyfleoedd hirdymor allai effeithio ar yr economi leol.

**Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru[9] yn tynnu sylw at y canlynol:**
-Bydd technoleg yn chwarae rhan gynyddol mewn gwaith a bydd cyflogwyr angen pobl â'r sgiliau cywir ar gyfer yr esblygiad hwn.
-Mae technoleg wedi galluogi gweithio o bell sy'n golygu y gellir lleoli pobl o bell ar gyfer rhai swyddi o bell.
-Mae pobl iau a menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi o fewn swyddi sydd â thebygolrwydd uchel o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol
- Gallwn ddisgwyl mwy o waith awtomeiddio yn y dyfodol, gyda'r effaith fwyaf ar y rheini sy'n gwneud swyddi ailadroddus, sy'n galw am sgiliau isel.
-Bydd cyfleoedd newydd yn ymwneud ag arloesi technolegol, bydd cefnogi arloesi lleol yn helpu i sicrhau bod y rhain yn cael eu gwireddu.
- Bydd mynd i'r afael â thlodi ymysg y rheini sy'n gweithio, trwy ddarparu cyfleoedd gwaith teilwng yn helpu i ehangu anghydraddoldebau.
Mae'r boblogaeth yn heneiddio - Gallai hyn olygu bod pobl yn gweithio am gyfnod hirach, ond gall hefyd olygu y gallai fod prinder sgiliau mewn diwydiannau allweddol wrth i bobl ymddeol.

**Byddwn yn mynd ati drwy:**
✓ Adeiladu ein dealltwriaeth o ofynion marchnad lafur Torfaen yn y dyfodol er mwyn ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
✓ Cymryd i ystyriaeth anghenion addysg a sgiliau cyfredol ac yn y dyfodol wrth gynllunio busnes er mwyn helpu i gefnogi economi leol arloesol a gwydn.
✓ Bydd helpu pobl i gael mynediad at gyfleoedd gwaith o ansawdd da cyhyd ag y dymunant yn eu cefnogi nhw a'u teuluoedd i ddod yn wydn yn economaidd yn y tymor hir.

## Integreiddio

<u>Sut mae'r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor:</u>

***Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif:***

- Bydd gwella canlyniadau a sgiliau addysgol, yn enwedig i bobl ifanc o deuluoedd incwm isel, yn cefnogi llesiant economaidd yn y tymor hirach.

***Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu:***

- Bydd sicrhau bod plant a theuluoedd Torfaen yn cael addysg a sgiliau o ansawdd uchel, sy'n gynhwysol a chyfranogol yn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn, ac yn cyfrannu tuag at Dorfaen lewyrchus.

***Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon:***

[9] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021

- Bydd creu cyfleoedd gwaith cynhwysol a chefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig i gael hyd i waith teilwng trwy ein cynnig dysgu oedolion a'r gymuned, yn helpu i greu Torfaen sy'n fwy cyfartal.

***Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol:***

- Mae cael ystod eang o sgiliau a chyfleoedd gwaith o fewn cymunedau yn helpu i'w gwneud yn fwy gwydn a chydlynus.
- Bydd ein Siop Un Stop yn cynnig un pwynt cyswllt ar gyfer siwrneiau cwsmeriaid busnes.
- Mae cysylltiadau trafnidiaeth da a diogel yn bwysig o ran sicrhau bod Torfaen yn lle da i gynnal busnes. Maent yn galluogi symud nwyddau, gwasanaethau, deunyddiau crai a phobl.
- Gallai gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau cerdded a beicio helpu i gefnogi pobl i ddod o hyd i waith neu i gael hyfforddiant.
- Bydd annog pobl sy'n manteisio ar gerbydau allyriadau isel iawn yn helpu i hyrwyddo cymdeithas arloesol a charbon isel, sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur, ac yn arbed arian.

***Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i'r amgylchedd lleol:***

- Bydd angen tir ar gyfer cyflogaeth bob amser ond bydd cydnabod gwerth a phwysigrwydd ehangach adnoddau naturiol gwydn, sy'n gweithio'n dda i'n lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cefnogi lles ein cymunedau yn y tymor hir
- Gall y ffordd y byddwn yn rheoli ein hadnoddau naturiol helpu i gefnogi ein gallu i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a sicrhau bod Torfaen yn lle deniadol i gynnal busnes.
- Mae gan lawer o swyddi gyswllt ag adnoddau naturiol ac mae yna lawer o gyfleoedd i wella sgiliau lleol drwy'r amgylchedd. Yn ôl Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae'r sector amgylchedd ac ynni yn bwysig i ffyniant y rhanbarthau dros y ddau ddegawd nesaf.
- Mae potensial sylweddol am ynni adnewyddadwy wedi'i nodi ar draws Gwent. Pe bai hyn yn cael ei wireddu, fe allai gefnogi'r daith ddi-garbon a chyfrannu at ffyniant lleol.
- Gall datblygu prosiectau ynni cymunedol ddarparu incwm defnyddiol y gellir ei fuddsoddi yn ôl i'r lleoedd y mae pobl yn byw.
- Mae prynu'n fwy lleol yn golygu llai o allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ond hefyd yn cefnogi'r economi leol.

***Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol:***

- Mae gweithio yn gallu cael effaith gadarnhaol ar iechyd unigolyn ac mae angen gweithlu iach ar economi ffyniannus.
- Bydd cefnogi'r economi sylfaenol yn helpu i sicrhau bod gan bobl fynediad at y gwasanaethau dyddiol y maent yn dibynnu arnynt, fel y ddarpariaeth iechyd a gofal, fydd yn cefnogi Torfaen iachach.

***Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef:***

- Bydd cynllunio lleoedd yn cefnogi ein trefi i ddod yn hybiau bywiog sy'n diwallu anghenion dyddiol eu pobl.
- Bydd helpu pobl leol i ddod o hyd i'r sgiliau a'r uchelgais i 'roi cynnig' ar syniad busnes yn ein trefi yn cyfrannu at gymunedau ffyniannus.
- Bydd cael ystod eang o sgiliau a chyfleoedd gwaith o fewn cymunedau yn helpu i'w gwneud yn fwy gwydn a chydlynus.
- Bydd cydlynu Partneriaeth Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon Safle Treftadaeth y Byd yn cefnogi diwylliant a threftadaeth leol.

***Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae bobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau***

- Bydd gwella sgiliau digidol trwy ein cynnig Dysgu Oedolion a'r Gymuned yn grymuso pobl i ffynnu mewn byd fwyfwy ddigidol.

# Amcan 7 *– Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol*

**Byddwn yn:**

✔ Cefnogi ysgolion i feithrin Dull Ysgol Gyfan wrth ddefnyddio'r Offeryn Hunanasesu Iechyd Emosiynol a Lles Meddwl i ganfod arfer da a meysydd i'w datblygu

✔ Diweddaru Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan Gwent

✔ Gweithio gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen i ymestyn y cynnig chwaraeon a hamdden yn y fwrdeistref

✔ Gweithio gyda phawb yn Nhorfaen i ddarparu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

✔ Gweithio gyda grwpiau wedi'u targedu drwy raglenni sy'n anelu i ddatblygu elfennau corfforol, meddyliol ac iechyd.

✔ Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol ein plant

✔ Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli a nifer y bobl sy'n gwirfoddoli

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru lewyrchus | | Cymru o gymunedau cydlynus | | Cymru sy'n fwy cyfartal | | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| | Cymru gydnerth | | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru iachach | | **Allwedd- Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae'r amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:**

Gall darparu cyfleoedd i bobl fabwysiadu ffyrdd o fyw actif, gefnogi iechyd da, a'u galluogi i gyflawni eu potensial addysgol, dod yn rhan o weithlu iach a chael a chynnal gwaith teilwng. Mae angen gweithlu iach ar economi leol sy'n ffynnu hefyd. Bydd cefnogi pobl i fod yn actif ac yn annibynnol cyhyd â phosibl yn cefnogi ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys wrth iddynt heneiddio.

Bydd sicrhau bod hawliau a diwylliannau pobl yn cael eu parchu a'u bod yn teimlo'n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth, yn helpu i gefnogi iechyd meddyliol a chorfforol ac yn sicrhau bod ein cymunedau yn rhai croesawgar, yn cynnwys i'r rheini sy'n ceisio lloches.

Mae adnoddau naturiol iach, sy'n gweithio'n dda, yn sail i iechyd. Maent yn darparu lle i bobl fod yn actif, cynhyrchu ocsigen a chylchu maetholion, helpu i reoleiddio’r hinsawdd, storio carbon a chwarae rôl o ran rheoli dŵr (lleihau’r perygl o lifogydd). Maent hefyd yn gallu amsugno llygryddion a gludir yn yr awyr sy’n niweidiol i iechyd a bod yn ffynhonnell beillio sy’n bwysig iawn o ran cynhyrchu bwyd.

Mae gan beryglon i’r iechyd sy’n gysylltiedig â hinsawdd sy’n newid y potensial i effeithio ar y mwyaf bregus mewn cymdeithas, felly mae angen i ni fod yn barod.

Gall symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar danwydd ffosil arwain at welliannau yn ansawdd aer a gostyngiadau yn nifer y cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer. Mae teithio llesol yn golygu nid yn unig llai o allyriadau carbon ond mae hefyd yn dda i’n hiechyd drwy leihau llygredd aer a’n cadw ni’n actif.

Bydd sicrhau bod gan bawb yn ein cymunedau fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da a'i fuddion cysylltiedig, yn cyfrannu at Dorfaen fwy cyfartal.

Mae gan bobl sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig lai o flynyddoedd o fywyd heb salwch ac maent yn fwy tebygol o fyw bywydau byrrach. Bydd cymryd camau i leihau anghydraddoldebau yn lleihau effaith iechyd gwael yn ein cymunedau, gan gefnogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial, gan gynnwys yn y gweithle.

Bydd cynlluniau chwarae fydd yn gwella’r offer chwarae a’r dewis o offer chwarae sydd ar gael i blant ag anableddau, yn hyrwyddo chwarae cynhwsyol.

Bydd gweithio i fynd i'r afael â’r hyn sy’n rhwystro unigolion rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau eraill, yn helpu mwy o bobl i fyw bywydau iach. Mae darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, hamdden a chwarae hefyd yn rhoi cyfleoedd i bobl gwrdd yn gymdeithasol, cael hwyl neu roi cynnig ar rywbeth newydd. Mae parciau ac ardaloedd chwarae yn cynnig lleoedd i bobl ddod at ei gilydd a chefnogi cymunedau bywiog a chydlynus.

Gall cymryd rhan yn y celfyddydau , gweithgareddau diwylliannol a gwirfoddoli gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.

# Cynnwys

**I’n helpu i ddatblygu ein hamcan:**

✓ Fe ddywedodd tua thri chwarter o’r rheini a ymatebodd i’n harolwg i breswylwyr[10] (79.1%) eu bod yn teimlo bod chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn bwysig, ac mae dros hanner y rheini a ymatebodd (55.8%) yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden o leiaf bob wythnos. Mae traean o’r ymatebwyr (33.2%) yn teimlo bod y pandemig wedi effeithio ar eu hiechyd corfforol. Mae hanner yr ymatebwyr (48.0%) yn teimlo bod y pandemig wedi effeithio ar eu hiechyd meddyliol ac emosiynol.

Dywedodd ‘Gwneud Eich Marc’, sef pleidlais genedlaethol i bobl ifanc a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2022, wrthym fod Iechyd Meddwl a Lles yn fater sylweddol i bobl ifanc yn Nhorfaen.

**I gynnwys pobl yn ein gwaith:**

[10] Torfaen Ynghyd -Arolwg Preswylwyr Torfaen 2021 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

✓ Bydd BGC Gwent yn ymgynghori â chymunedau ynghylch y gwaith sydd ganddo ar y gorwel i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a all effeithio ar iechyd, a sut y gallwn fynd ati i gefnogi'n gilydd i alluogi ffyrdd o fyw iach.

## Cydweithio

**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn aethom ati i weithio gyda:**

✓ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, drwy'r broses cynllunio lles, a chanfod pa mor bwysig ydyw i bartneriaid yn y sector cyhoeddus gydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, a defnyddio egwyddorion Marmot i gefnogi'r gwaith hwn.

✓ 4 ysgol i dreialu Dull Ysgol Gyfan wrth fynd ati i ddefnyddio'r offeryn Hunanasesu Iechyd Emosiynol a Lles Meddyliol.

✓ Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen i archwilio dulliau i ymestyn y Cynnig Chwaraeon a Hamdden yn y fwrdeistref.

**I gyflawni ein camau byddwn yn gweithio gyda:**

✓ Mae aelodau Fforwm Pobl Ifanc Torfaen yn gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i adolygu ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc yng Ngwent. Bydd hyn yn sicrhau bod Llais Ieuenctid wrth wraidd cynllunio gwasanaeth iechyd meddwl.

✓ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac i ddod yn rhanbarth Marmot.

✓ Staff Ysgol, dysgwyr, Dietegwyr a Phwysau Iach: Cymru Iach, Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus Lleol i ddiweddaru Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan Gwent.

✓ Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen ac ysgolion i alluogi'r gymuned ehangach i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon ysgolion y tu allan i oriau'r diwrnod ysgol a thymhorau ysgol.

## Atal

Mae poblogaeth sy'n heneiddio ac adnoddau cyfyngedig yn golygu bod yn rhaid i ni weithredu i gadw pobl yn iach ac yn annibynnol neu bydd y galw ar wasanaethau cyhoeddus yn anghynaladwy..

Bydd sicrhau bod pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac yn cynnal ffyrdd o fyw actif pan fyddant yn ifanc, yn cefnogi iechyd da yn y tymor hir.

**Byddwn yn mynd ati drwy**:

✓ Ymestyn y Cynnig Chwaraeon a Hamdden yn y Fwrdeistref

✓ Meithrin Dull Ysgol Gyfan o ran Iechyd Emosiynol a Lles Meddyliol fel y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi pobl ifanc.

✓ Parhau i gynyddu cyfleoedd a mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol i breswylwyr Torfaen

✓ Mynd i'r afael â'r hyn sy'n creu rhwystrau rhag cymryd rhan, a darparu ystod o gyfleoedd i helpu mwy o bobl i fod yn actif, a blasu'r manteision, gan gynnwys dangos ymyriadau sydd wedi'u targedu'n llwyddiannus, fel *Os-ei-di-af*-i, cymorth ysgol a *Betterman*, a chael hyd i gyllid i ddatblygu'r rhaglenni hyn ymhellach.

✓ Cadw pobl yn iach ac yn annibynnol am gyn hired â phosib trwy ein dulliau ailalluogi.

## Tymor hir

Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein hamcan rydym wedi ystyried yr heriau a chyfleoedd hirdymor allai effeithio ar iechyd a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i gefnogi iechyd da.
Bydd gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phrif achosion marwolaethau a salwch cynamserol, arafu eiddilwch, a helpu oedolion sydd o oedran gweithio i fyw bywydau iachach am gyfnod hirach drwy atal ymddygiadau sy'n niweidiol i'r iechyd a hyrwyddo lles meddyliol, yn helpu i greu Torfaen sy'n iachach.
Bydd cymryd camau i leihau anghydraddoldebau sy'n aml yn benderfynyddion ehangach iechyd, yn lleihau effaith iechyd gwael ar gymunedau penodol.

**Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru[11] yn tynnu sylw at y canlynol:**
Mae disgwyliad oes iach yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, ac nid yw wedi dangos fawr o newid dros amser
- Nid yw lefelau iechyd a hunan gofnodir wedi dangos fawr o welliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'r bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn lledu fymryn
-Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, amcanestynir y bydd cyfraddau rhai afiechydon a chyflyrau iechyd cronig, gan gynnwys dementia, yn cynyddu
-Bydd y galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu yn y dyfodol wrth i strwythurau demograffig newid ac wrth i'r boblogaeth heneiddio.
**Adroddiad Cymru ar yr Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd [12], prif risgiau:**
- Effeithiau tymheredd uwch ar iechyd y bobl.
- Effaith tywydd mwy eithafol ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Byddwn yn mynd ati drwy**:
✓Weithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach anghydraddoldebau iechyd.
✓ Ymestyn y Cynnig Chwaraeon a Hamdden yn y Fwrdeistref i gefnogi iechyd yn y tymor hir.

## Integreiddio

Sut mae'r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif:***

- Gall iechyd gwael effeithio ar berfformiad addysgol a gallu pobl i ddod o hyd i waith teilwng a dal gafael arno.
- Gall cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion i fanteisio ar gyfleoedd dysgu neu gael gwaith, gael effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd a'u lles yn y tymor hir.

***Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu:***

- Bydd cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â throsedd a gweithgarwch gwrthgymdeithasol yn gwella ymdeimlad o ddiogelwch ac yn helpu i gefnogi lles meddyliol a chorfforol.

[11] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021
[12] Tystiolaeth ar gyfer y Trydydd Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd yn y DU (CCRA3). Crynodeb i Gymru. Dr Alan Netherwood. Netherwood Sustainable Futures 2022.

***Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon:***

- Bydd cymryd camau i leihau anghydraddoldebau sy'n aml yn benderfynyddion ehangach o ran iechyd, yn lleihau effaith iechyd gwael ar gymunedau penodol.

***Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol:***

- Mae'r gallu i deithio yn bwysig iawn i leihau unigrwydd ac unigedd a gall gefnogi lles meddyliol.
- Gall cysylltiadau trafnidiaeth dda helpu pobl i gael mynediad i gyfleusterau chwaraeon a hamdden, a'u helpu i gadw'n iach ac actif.
- Bydd cefnogi'r newid tuag at atebion trafnidiaeth sy'n fwy gwyrdd ar gyfer y rhanbarth yn helpu i leihau llygredd aer, a allai effeithio'n andwyol ar iechyd y rhai mwyaf bregus yn y boblogaeth. Nid yw teithio mwy llesol yn golygu llai o allyriadau carbon a llygredd aer yn unig, mae hefyd yn cadw pobl yn actif.

***Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i'r amgylchedd lleol:***

- Mae adnoddau naturiol iach, sy'n gweithio'n dda, yn sail i iechyd. Maent yn darparu lle i bobl fod yn actif, cynhyrchu ocsigen a chylchu maetholion, helpu i reoleiddio'r hinsawdd, storio carbon a chwarae rôl o ran rheoli dŵr (lleihau'r perygl o lifogydd). Maent hefyd yn gallu amsugno llygryddion a gludir yn yr awyr sy'n niweidiol i iechyd a bod yn ffynhonnell beillio sy'n bwysig iawn o ran cynhyrchu bwyd
- Mae gan peryglon i'r iechyd sy'n gysylltiedig â hinsawdd sy'n newid y potensial i effeithio ar y mwyaf bregus mewn cymdeithas, felly mae angen i ni fod yn barod.
- Gall symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar danwydd ffosil arwain at welliannau yn ansawdd aer a gostyngiadau yn nifer y cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer.

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd:***

- Mae gweithio yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd unigolyn ac mae economi sy'n ffynnu angen gweithlu iach.
- Gall darparu cyfleoedd i bobl fabwysiadu ffyrdd o fyw actif, gefnogi iechyd da, felly'n eu galluogi i gyflawni eu potensial addysgol, dod yn rhan o weithlu iach a dal gafael ar swydd deilwng.

***Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef:***

- Gall cymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.

***Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau***

- Mae gwefan Cysylltu Torfaen yn rhoi cyfle i breswylwyr gael hyd i gyfleoedd gwirfoddoli yn eu cymuned leol a gall hyn wella iechyd meddyliol a lles.

# Amcan 8 *–Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef*

**Byddwn yn:**

- ✔ Gweithio gydag ysgolion a gwasanaethau i bobl ifanc er mwyn hyrwyddo cynhwysiant
- ✔ Cefnogi ein preswylwyr yn Nhorfaen i fyw mewn lle diogel a deniadol, trwy weithio gyda phartneriaid yng nghyfarfodydd yr hwb diogelwch cymunedol, a rhannu gwybodaeth ac adnoddau i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar breswylwyr, yn cynnwys anghydfodau rhwng cymdogion, casineb, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, troseddau lefel isel
- ✔ Creu lleoedd gwydn, diogel a deniadol sy'n denu ac angori cwmnïau lleol
- ✔ Cadw ein bwrdeistref yn lân a'i gwneud yn lle deniadol i dreulio amser

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (olive) | Cymru lewyrchus | (purple) | Cymru o gymunedau cydlynus | (dark red) | Cymru sy'n fwy cyfartal | (light blue) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| (orange) | Cymru gydnerth | (dark blue) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | (red) | Cymru iachach | | **Allwedd- Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae'r amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:**

Gall cymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.

Bydd gwella ymdeimlad o ddiogelwch yn helpu i gefnogi lles meddyliol a chorfforol. Er enghraifft, bydd pobl yn teimlo eu bod yn gallu mwynhau'r awyr agored i gerdded, rhedeg, beicio a chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill sy'n eu cadw'n iach. Bydd cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â throsedd, gweithgaredd gwrthgymdeithasol ac i wella diogelwch yn cefnogi mwy o gydlyniad yn ein cymunedau.

Bydd cefnogi treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol Torfaen yn cynnig cyfleoedd i bobl o wahanol oed a chefndiroedd ddod at ei gilydd. Yn yr un modd, gall diddordebau diwylliannol ddod a phobl o wahanol oedrannau at ei gilydd.

Bydd gweithio gyda'n cymunedau i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a sbwriel yn helpu i gadw ein bwrdeistref yn lân a'i wneud yn lle deniadol i dreulio amser. Bydd hyn helpu i ddiogelu ardaloedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gall rheoli man gwyrdd cymunedol hefyd helpu i ddod â phobl a chymunedau ynghyd, gan feithrin balchder a pherchnogaeth yn ein cymunedau.

Bydd gweithio'n agos gydag ysgolion a gwasanaethau cymorth eraill i bobl ifanc drwy ein Tîm Cydlyniant Cymunedol, yn helpu i hyrwyddo amgylcheddau cynhwysol a Thorfaen sy'n fwy diogel a goddefgar, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ymwneud â'r mannau y maen nhw'n byw.

Bydd cefnogi cymunedau lleiafrifol, gweithio i hyrwyddo negeseuon ymwybyddiaeth cadarnhaol, a hyrwyddo amrywiaeth yn helpu i gefnogi Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae cefnogi grwpiau amrywiol o bobl, yn cynnwys rhai diwylliannau ac ethnigrwydd gwahanol, i gyd-dynnu'n dda a theimlo'n ddiogel yn eu cymunedau yn bwysig ar gyfer lles a byddant yn helpu i hyrwyddo cyfrifoldeb byd-eang.

Mae statws Treftadaeth Byd Blaenafon yn denu ymwelwyr o dramor i Dorfaen a medrant gyfrannu at yr economi leol. Mae diogelu treftadaeth Torfaen syn cael ei gydnabod yn fyd-eang yn bwysig o ran sicrhau ymdeimlad o le a chynyddu balchder a lles ein cymunedau.

Bydd lleihau effaith trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar fusnesau lleol yn helpu'r economi i ffynnu.

Mae llawer o swyddi'n gysylltiedig â'n diwydiannau twristiaeth diwylliant a threftadaeth ac mae llawer ohonynt wedi'i seilio o amgylch ein treftadaeth leol a'n hasedau amgylcheddol. Mae'r economi greadigol wedi'i nodi gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, fel un sy'n bwysig i'n heconomi rhanbarthol fynnu yn y dyfodol.

Bydd cymryd camau i wella'r berthynas rhwng unigolion a chymunedau ac i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn helpu i gefnogi Torfaen fwy cyfartal.

Gall gwirfoddoli fod yn gyfle i ddysgu sgiliau newydd a gall porth i gyflogaeth a diddordebau diwylliannol yn y dyfodol ddod â phobl o wahanol oed a chefndiroedd ynghyd.

Bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ymdeimlad o le a lles.

## Cynnwys

**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn:**

✓ Mae data ar drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddarperir gan Heddlu Gwent, ynghyd â gwybodaeth gan Gynghorwyr lleol a'r cyhoedd wedi ffurfio blaenoriaethau'r Hwb Diogelwch Cymunedol

✓Mae dros hanner y rheini (55.4%) a ymatebodd i'r Arolwg ar gyfer preswylwyr, yn teimlo bod celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol yn bwysig. Mae hyn wedi aros yn weddol gyson dros amser[13].

**I'n helpu i gynnwys pobl yn ein gwaith, byddwn yn**

✓ Parhau i weithio gyda gwirfoddolwyr i ofalu am ein hamgylchedd a'i gynnal, dod â phobl at ei gilydd a meithrin balchder a pherchnogaeth yn ein cymunedau.

## Cydweithio

**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn, aethom ati i:**

✓ Weithio gyda Phartneriaeth Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth y Byd, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn modd effeithiol i reoli'r safle.

[13] Torfaen Ynghyd -Arolwg Preswylwyr Torfaen 2021 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

| |
|---|
| ✓ Gweithio i ganfod blaenoriaethau, rhannu gwybodaeth ac adnoddau drwy'r Hwb Diogelwch Cymunedol fel y gallwn fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig i'n preswylwyr.<br><br>**I gyflawni ein camau byddwn yn:**<br>✓ Parhau i weithio gyda'n partneriaid i reoli Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus i wneud ein cymunedau'n lleoedd mwy diogel.<br>✓ Parhau i weithio gydag ysgolion a gwasanaethau eraill sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc drwy ein Tîm Cydlyniant Cymunedol i hyrwyddo amgylcheddau cynhwysol a Thorfaen sy'n fwy diogel a goddefgar.<br>✓ Parhau i weithio gyda ein sefydliadau diwylliannol allweddol yn Nhorfaen, a'i cefnogi e.e., yr amgueddfa, y theatr, Celfyddydau Llantarnam Grange. |
| ## Atal<br><br>**Byddwn yn mynd ati drwy**:<br>✓ Ganolbwyntio ar ymyriadau ataliol sy'n mynd i'r afael â throseddau casineb, lleferydd casineb ac anoddefgarwch yn ein cymunedau i greu cymunedau mwy goddefgar a diogel.<br>✓ Canolbwyntio ar ganfod, ymgysylltu ac ymyrryd yn gynnar mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi fel mannau poblogaidd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>✓ Adolygu ein dull o orfodi mewn achosion tipio anghyfreithlon, fel ein bod yn canolbwyntio ar atal tipio anghyfreithlon.<br>✓ Canolbwyntio ar atal trais difrifol yn unol â'r ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i wneud hynny. Gwneir hyn drwy ymyrraeth amlasiantaethol, gan ddefnyddio dull Strike mewn ysgolion a chyfarfodydd 115 i oedolion, yn ogystal â mentora. |
| ## Tymor hir<br><br>Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein hamcan rydym wedi ystyried yr heriau a chyfleoedd hirdymor a allai effeithio ar *ddiwylliant a threftadaeth a gwneud Torfaen yn lle llewyrchus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef.*<br><br>**Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru[14] yn tynnu sylw at y canlynol:**<br>-Bydd poblogaeth Cymru yn parhau i dyfu hyd at 2043, er y bydd cyfradd y twf yn arafu dros amser<br>-Mae poblogaethau'n heneiddio ar draws y byd<br>-Mae'r prif amcanestyniad i Gymru o ran y niferoedd sy'n mudo yn cyfeirio at boblogaeth sy'n cynyddu hyd at 2037<br>-Mae'r cynnydd yn y nifer net sy'n mudo, nad ydynt yn dod o'r UE wedi bod yn cynyddu yn y DU er 2013, tra bod mudo net o'r UE wedi sefydlogi er 2018<br>- Disgwylir y bydd y nifer net sy'n mudo'n rhyngwladol bob blwyddyn i Gymru yn 6,000 y flwyddyn o ganol 2025 ymlaen<br>-Amcangyfrir y bydd nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn cynyddu. Mae disgwyl i'r cynnydd fod ar ei uchaf ymhlith grwpiau oedran iau.<br>-Mae gwytnwch ecosystemau yng Nghymru yn dirywio, ac mae rhywogaethau'n dirywio drwy'r byd, gyda'r un patrwm yn digwydd yng Nghymru a'r DU. |

[14] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021

**Byddwn yn mynd ati drwy**:

✓ Wrth weithio i leihau'r tebygolrwydd o droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy weithgareddau gwyro/addysgol rydym yn meithrin dinasyddiaeth dda ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

✓ Cymryd camau i ymyrryd yn gynnar i atal cynnydd mewn materion cymunedol ac i leihau'r risg o niwed a gwella lles tymor hir.

✓ Mynd i'r afael ag achosion sydd wrth wraidd tipio anghyfreithlon a gollwng sbwriel i ddiogelu ein hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

✓ Cefnogi sefydliadau diwylliannol allweddol er mwyn helpu i sicrhau bod ein hasedau diwylliannol a threftadaeth yn cael eu cynnal fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.

✓ Cefnogi gwirfoddoli. Gall poblogaeth sy'n heneiddio, olygu bod mwy o bobl yn gallu cefnogi eu cymunedau drwy wirfoddoli.

## Integreiddio

Sut mae'r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor::

***Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif:***

- Bydd gweithio'n agos gydag ysgolion a gwasanaethau cymorth eraill i bobl ifanc drwy ein Tîm Cydlyniant Cymunedol, yn helpu i hyrwyddo amgylcheddau cynhwysol a Thorfaen sy'n fwy diogel a goddefgar.
- Bydd cefnogi plant a phobl ifanc drwy weithgaredd ymyrraeth amlasiantaeth i ddisgyblion (MAPI) yn helpu i atal plant rhag dod i gyswllt â'r system cyfiawnder troseddol.
- Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a datblygu'r Gymraeg yn helpu i ddiogelu diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

***Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu***

- Bydd gweithio'n agos gydag ysgolion a gwasanaethau cymorth eraill i bobl ifanc drwy ein Tîm Cydlyniant Cymunedol, yn helpu i hyrwyddo amgylcheddau cynhwysol a Thorfaen sy'n fwy diogel a goddefgar, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ymwneud â'r mannau y maen nhw'n byw.

***Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon:***

- Bydd atal plant rhag dod i gyswllt â'r system cyfiawnder troseddol, a gweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi cymunedau mwy cydlynus lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel.
- Bydd cymryd camau i wella'r berthynas rhwng unigolion a chymunedau a dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon yn helpu i gefnogi Torfaen fwy cyfartal.

- Gall diddordebau diwylliannol ddod â phobl o wahanol oedrannau at ei gilydd. Rydym yn gwybod bod gennym boblogaeth sy'n heneiddio yng Ngwent, ac fe allai hyn olygu bod mwy o bobl yn gallu cefnogi eu cymunedau drwy wirfoddoli.

***Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol:***

- Mae gwirfoddoli yn y maes treftadaeth yn rhoi'r cyfle i gwrdd â phobl newydd, i fagu hyder a dysgu sgiliau newydd ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol.
- Mae cysylltiadau da yn nhermau trafnidiaeth yn galluogi pobl i gyrchu cefn gwlad am resymau fel hamddena, i ymweld ag atyniadau hanesyddol a diwylliannol, a chael mynediad at gyfleusterau chwaraeon a hamdden.

***Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i'r amgylchedd lleol:***

- Bydd addysgu plant, pobl ifanc ac oedolion am bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd, gan gynnwys rhag y difrod a achosir gan sbwriel a thipio anghyfreithlon yn helpu i ddiogelu a gwella adnoddau naturiol gwerthfawr Torfaen.
- Gall gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â'r amgylcheddol fod yn gyfle gwych i gymunedau ac unigolion ddysgu sgiliau newydd.
- Gall Torfaen ddisgwyl cael blas ar hinsawdd sy'n newid yn sgil digwyddiadau tywydd mwy eithafol yn y dyfodol. Gallai hyn effeithio ar asedau hanesyddol a diwylliannol o bwys yn ogystal ag ar ddigwyddiadau awyr agored. Bydd cymryd camau i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd yn helpu i gefnogi hunaniaeth ddiwylliannol leol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd.
- Mae gorffennol diwydiannol Torfaen yn dylanwadu'n gryf ar ei hamgylchedd naturiol, ac mae'r dirwedd benodol, sy'n bwysig i'n diwylliant heddiw, hefyd yn adnodd ecolegol sylweddol sydd angen ei gwarchod a'i gwella.

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd:***

- Bydd lleihau effaith trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar fusnesau lleol yn helpu'r economi i ffynnu.
- Bydd cynlluniau creu lleoedd sydd wedi'u datblygu ar y cyd, yn cefnogi ein trefi i ddod yn hybiau bywiog a fydd yn diwallu anghenion pobl o ddydd i ddydd.
- Bydd cydlynu Partneriaeth Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth y Byd a rheoli Canolfan Treftadaeth y Byd yn darparu porth i Dorfaen ac yn cefnogi diwylliant a threftadaeth leol i'w mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol.

***Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a ffisegol:***

- Gall cymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.
- Bydd cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gwella ymdeimlad o ddiogelwch ac yn helpu i gefnogi lles meddyliol a chorfforol.

***Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau***

- Bydd ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn helpu i ddiogelu diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol .
- Bydd cynnwys pobl a chymunedau mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau a wnawn yn helpu i wneud Torfaen yn lle cydlynus a ffyniannus i fyw.

## Amcan 9 – *Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y mae bobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau*

**Byddwn yn:**

- ✔ Darparu cyngor ac arweiniad ar lesiant i annog cynhwysiant cymdeithasol
- ✔ Creu gwasanaethau rhagorol ac effeithlon sydd wedi eu cynllunio ar sail anghenion ein cwsmeriaid a'u llywio gan ddata a gwybodaeth fusnes
- ✔ Grymuso cwsmeriaid a staff i ffynnu mewn byd sy'n fwyfwy digidol
- ✔ Datblygu systemau a datrysiadau technoleg sy'n arloesol, effeithiol, diogel, cadarn a chydgysylltiedig ac sy'n gwella profiad y cwsmer, ein heffeithlonrwydd a'n mynediad at ddata
- ✔ Cynnwys pobl a chymunedau mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud
- ✔ Cefnogi pobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol
- ✔ Darparu gwasanaeth cofrestru effeithiol ac effeithlon i breswylwyr Torfaen er mwyn eu cefnogi ar gyfnodau allweddol yn eu bywydau.
- ✔ Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff ac Aelodau etholedig.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (olive) | Cymru lewyrchus | (purple) | Cymru o gymunedau cydlynus | (crimson) | Cymru sy'n fwy cyfartal | (blue) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| (orange) | Cymru gydnerth | (dark blue) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | (red) | Cymru iachach | | **Allwedd-Nodau Llesiant Cenedlaethol** |

**Sut mae'r amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:**

Bydd gwella'r cynnwys ar wefan y cyngor fel ei bod yn llawer haws dod o hyd i wybodaeth a chwblhau gwasanaethau ar-lein yn gwella mynediad i'n gwasanaethau.

Bydd cefnogi pobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol yn helpu Torfaen i fod yn fwy cynhwysol yn gymdeithasol.

Bydd darparu gwasanaeth cofrestru effeithiol ac effeithlon i breswylwyr Torfaen er mwyn eu cefnogi ar gyfnodau allweddol yn eu bywydau yn cefnogi cymunedau cydlynus.

Gall helpu preswylwyr i gael mynediad at adnoddau a llyfrgell ar-lein gefnogi dysgu a datblygu sgiliau, ac agor y drws i fyd gwaith.

Gall defnyddio technoleg gynorthwyol lle bo hynny'n briodol, gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol ac i gadw'n iachach am gyfnod hirach.

Bydd darparu mannau gwyrdd, glân, ac amgylcheddau adeiledig sy'n hygyrch i bawb, yn cefnogi pobl i greu cysylltiadau, cael mynediad at y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt a mwynhau'r manteision i'r iechyd a gynigir gan fyd natur.

Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff ac Aelodau etholedig i roi'r sgiliau iddynt er mwyn hybu cydraddoldeb.

Bydd ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn helpu i ddiogelu diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Cynnwys



**I'n helpu i ddatblygu ein hamcan:**

- ✓ Gofynnom i'n preswylwyr am eu barn am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu drwy ein Harolwg i Breswylwyr Torfaen -*Torfaen Ynghyd*.
- ✓ Rydym hefyd yn gwybod, drwy ein Haelodau, ymholiadau cwsmeriaid a chyfryngau cymdeithasol, bod preswylwyr yn gwerthfawrogi ymateb cyflym ac effeithlon i geisiadau am wasanaethau.

**I gynnwys pobl yn ein gwaith byddwn yn:**

- ✓ Cynyddu cyfleoedd i breswylwyr gysylltu â ni a chwblhau trafodion ar ein gwefan trwy ymestyn swyddogaeth ein "chat bot"
- ✓ Creu hybiau cymunedol i ddarparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i breswylwyr , a hynny'n agos at y mannau y maen nhw'n byw.
- ✓ Parhau i ganfod cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan ar bob lefel o'r broses wneud penderfyniadau yn yr awdurdod
- ✓ Defnyddio adborth gan gwsmeriaid, rhanddeiliaid a staff i wella'r broses o gofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau.

## Cydweithio



**I'n helpu i ddatblygu'r amcan hwn:**

- ✓ Mae ein rhaglenni gwirfoddoli yn dweud wrthym fod awydd gan breswylwyr i ymwneud mwy â'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

**I gyflawni ein camau byddwn yn:**

- ✓ Creu cyfleoedd clir i gwsmeriaid fod yn rhan o broses dylunio'n gwasanaethau
- ✓ Cynnwys adnoddau ychwanegol mewn sgyrsiau'n ymwneud â chynllun sy'n ystyriol o oedran, ac archwilio i ba raddau y mae ein gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl hŷn i gyd.
- ✓ Parhau i ymgysylltu â Fforwm Mynediad Torfaen i siarad yn uniongyrchol â phobl anabl ac elusennau sy'n gweithio gyda phobl anabl, i gytuno ar newidiadau a fydd yn gwneud ein gwasanaethau, mannau gwyrdd ac amgylcheddau adeiledig yn fwy hygyrch.

- ✓ Datblygu ein perthynas â grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, i'w hannog i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau, asesiadau effaith a sgyrsiau am ein gwasanaethau a'n cymunedau.
- ✓ Creu pecyn adnoddau ar gyfer staff a gwirfoddolwyr i'w galluogi i gefnogi camau i gynnwys planta phobl ifanc yn effeithiol ac mewn modd sy'n cynnal y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i blant a phobl ifanc (Cymru).

## Atal

Gall ateb ymholiadau gan ein preswylwyr mewn modd amserol, a'u cyfeirio at y gefnogaeth gywir, ar yr adeg gywir, helpu i atal problemau

**Byddwn yn:**

- ✓ Creu gwasanaethau rhagorol ac effeithlon sydd wedi eu cynllunio ar sail anghenion ein cwsmeriaid a'u llywio gan ddata a gwybodaeth fusnes.
- ✓ Creu hybiau cymunedol i ddarparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i breswylwyr, a hynny'n agos at y mannau y maen nhw'n byw.

## Tymor hir

Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein hamcan rydym wedi ystyried yr heriau a chyfleoedd hirdymor allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

**Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru[15] yn tynnu sylw at y canlynol:**

- Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at sut mae allgau digidol yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau mewn cymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pobl o gymunedau Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig, a thrigolion mewn tai cymdeithasol
- Mae dibyniaeth gynyddol ar dechnolegau digidol o fewn cymdeithas yn bygwth ehangu'r anghydraddoldebau a achosir gan allgau digidol
- Bydd y galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu yn y dyfodol wrth i strwythurau demograffig newid ac wrth i'r boblogaeth heneiddio
- Wrth i bobl ddefnyddio'r rhyngrwyd a chael mwy o fynediad ar lein yn ystod y ddegawd ddiwethaf, gwelwyd twf yn nifer y gwasanaethau cyhoeddus a gyrchir gan ddefnyddwyr digidol
-Mae'r ffordd y mae pobl yn defnyddio gwasanaethau'r sector cyhoeddus yn newid oherwydd symudiad tuag at ddigideiddio
-Gwelwyd mai pobl rhwng 35 a 54 oed oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio gwefannau'r gwasanaethau cyhoeddus, tra bod y rhai rhwng 65 a throsodd yn llai tebygol o wneud hynny
-Amcangyfrir y bydd nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn cynyddu. Mae disgwyl i'r cynnydd fod ar ei uchaf ymhlith grwpiau oedran iau
- Mae'r boblogaeth yn heneiddio
- Bydd yr hinsawdd sy'n newid yn creu sawl risg allweddol i Gymru a nifer cynyddol o ddigwyddiadau tywydd eithafol.

**Byddwn yn mynd ati drwy**:

[15] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021. Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/future-trends-2021

- ✓ Helpu ein preswylwyr i ddefnyddio ein cyfleusterau hunanwasanaeth, er mwyn helpu i reoli'r galw am wasanaethau yn y tymor hir
- ✓ Cynnwys adnoddau ychwanegol mewn sgyrsiau'n ymwneud â chynllun sy'n ystyriol o oedran ac archwilio i ba raddau y mae ein gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl hŷn i gyd.
- ✓ Datblygu ein perthynas â grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig i'w hannog i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau, asesiadau effaith a sgyrsiau am ein gwasanaethau a'n cymunedau.
- ✓ Creu hybiau cymunedol i ddarparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i breswylwyr, a hynny'n agos at y mannau y maen nhw'n byw.
- ✓ Datblygu ein dealltwriaeth am risgiau yn sgil yr hinsawdd i'n helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n wydn.

# Integreiddio

Sut mae'r amcan hwn yn effeithio ar amcanion llesiant eraill y Cyngor:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain bywydau positif:***

- Bydd gwella sgiliau digidol trwy ein cynnig Dysgu Oedolion a'r Gymuned yn grymuso pobl i ffynnu mewn byd fwyfwy digidol.

***Annog a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu:***

- Bydd gwella cyfleusterau dysgu a chefnogi dulliau addysgu modern yn cefnogi plant a phobl ifanc i ffynnu.

***Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau i adnabod ac ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a bodlon:***

- Gall defnyddio technoleg gynorthwyol lle bo hynny'n briodol, gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol.

***Gwneud Torfaen yn lle mwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, a hynny mewn modd cymdeithasol, digidol a ffisegol:***

- Bydd creu hybiau cymunedol i ddarparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i breswylwyr, a hynny'n agos at y mannau maen nhw'n byw, yn helpu i gefnogi cymunedau cynaliadwy.

***Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a chreu gwelliannau i'r amgylchedd lleol:***

- Mae angen y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'n cwsmeriaid, fod yn wydn i hinsawdd sy'n newid. Bydd datblygu ein dealltwriaeth am risgiau yn sgil newid yn yr hinsawdd yn ein helpu i baratoi ar gyfer effeithiau yn y dyfodol.
- creu ardal ar-lein i'r cyhoedd rannu eu syniadau ynghylch ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn ein helpu i ymateb i'r her allyriadau sero net.

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog dechrau busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd:***

- Bydd gwella sgiliau digidol trwy ein cynnig Dysgu Oedolion a'r Gymuned yn grymuso pobl i ffynnu mewn byd fwyfwy digidol.

| |
|---|
| ***Hybu ffyrdd o fyw iachach yn Nhorfaen i wella lles meddyliol a chorfforol:*** <br>- Bydd hyrwyddo Cysylltu Torfaen yn rhoi cyfle i breswylwyr gael hyd i gyfleoedd gwirfoddoli yn eu cymuned leol a gall hyn wella iechyd meddyliol a lles. <br>***Cefnogi ein diwylliant a threftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac i ymweld ag ef:*** <br>- Bydd ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn helpu i ddiogelu diwylliant Cymru a'i hunaniaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. <br>- Bydd cynnwys pobl a chymunedau mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw, a'r penderfyniadau a wnawn, yn helpu i wneud Torfaen yn lle cydlynus a ffyniannus i fyw. |

## 4. Trefniadau Llywodraethu ac adnoddau

Caiff ein hamcanion llesiant eu rheoli drwy ymagwedd gadarn tuag at reoli prosiectau er mwyn sicrhau bod cynnydd, risgiau ac atebolrwydd yn amlwg.

Yn ogystal â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cynllun Sirol a monitro gweithgareddau, mesurau a risgiau allweddol yn barhaus drwy ein proses cynllunio gwasanaethau, bydd ein cynlluniau a'n strategaethau allweddol yn cael eu monitro, a bydd hefyd ganddynt eu trefniadau eu hunain i gefnogi camau cyflawni effeithiol:

| | |
|---|---|
| Strategaeth Economi a Sgiliau | - Monitro perfformiad drwy'r Tîm Arweinyddiaeth, y Fforwm Economaidd Strategol, a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus. |
| Cynllun Datblygu Plant a Phobl Ifanc | - Tîm Arweinyddiaeth, Cabinet, a Phwyllgor Craffu'r Cyngor sy'n gyfrifol am oruchwylio ac adrodd yn uniongyrchol am y cynllun. Bydd y Prif Weithredwr ei hun yn cefnogi'r rhaglen er mwyn sicrhau bod yna ymagwedd gyson wrth fynd ati i ddatblygu'r cynllun. <br>- Bydd y cynllun datblygu'n dilyn dull rhaglen strwythuredig o ran rheoli'r prosiect, a hynny dan arweiniad Swyddfa Rheoli Rhaglenni sy'n cael ei chreu o'r newydd i weithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau sy'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth i blant, teuluoedd a chymunedau. |
| Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Argyfwng Hinsawdd a Natur | - Sefydlwyd is-grŵp Cabinet i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer yr argyfwng hinsawdd a natur drwy helpu i ddod o hyd i atebion i heriau a nodi meysydd i'w gwella. <br>- Adroddir yn flynyddol ar gynnydd allyriadau sero net y Cyngor i Lywodraeth Cymru <br>- Adroddir yn rheolaidd i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn rhan o'r Amserlen Perfformiad <br>- Adroddir bob 3 mlynedd ar yr hyn a wnaed i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a nodi sut yr ydym yn cyfrannu |

| | |
|---|---|
| | at amcanion y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Adfer Natur. |
| Cynllun Llesiant Cymunedol | - Mae cynllun yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ond unwaith y bydd yn ei le bydd yn destun craffu i'r Tîm Arweinyddiaeth a thrwy strwythurau priodol y bwrdd. |
| Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf | - Bydd cynllun cyflenwi blynyddol yn sylfaen i'n strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf, felly'n ein galluogi i ymateb i dueddiadau a chyfleodd sy'n dod i'r amlwg yng nghyd-destun yr uchelgeisiau strategol ehangach.<br>- Bwrdd Cyflawni Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf fydd yn mynd ati i'w rheoli<br>- Bydd Bwrdd Caffael Datrysiadau Digidol yn adolygu ac yn cymeradwyo ceisiadau caffael sy'n gysylltiedig â TGCh a materion Digidol. |
| Cynllun Datblygu Lleol | - Fe fydd y Cyngor a Llywodraeth Cymru yn llunio Cytundeb Cyflawni. Mae hyn yn cynnwys amserlen a chynllun i Gynnwys y Gymuned ar gyfer y llu o gamau statudol sydd ynghlwm wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol cyn ei fabwysiadu.<br>- Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, mae'n ofynnol cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn, sy'n nodi sut y mae'r cynllun yn perfformio. |

## 5. Cyflawni ein hamcanion llesiant

**Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo, pan:**

| Amcan Llesiant | Beth sydd wedi newid erbyn 2027: |
|---|---|
| 1.Codi cyrhaeddiad addysgol | ✓ Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad at addysg o ansawdd dda ac ni fydd ysgolion dan fesurau arbennig.<br>✓ Byddwn wedi lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb fynd i fyd addysg bellach, byd gwaith neu hyfforddiant.<br>✓ Byddwn wedi llwyddo i ymwreiddio'r cwricwlwm newydd i Gymru yn ein hysgolion er mwyn paratoi plant a phobl ifanc yn well ar gyfer byd sy'n newid.<br>✓ Byddwn yn diwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol plant a phobl ifanc yn well, gan eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu, a chyrraedd eu potensial llawn.<br>✓ Byddwn wedi cynyddu'r gefnogaeth i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol Covid ar addysg pobl ifanc fel oedi dysgu, pryder cynyddol, cymhlethdodau ymddygiadol a phresenoldeb gwael.<br>✓ Byddwn wedi helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â recriwtio, a'r gweithlu yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| | ✓ Bydd mwy o bobl yn ennill y cymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfatebol sydd eu hangen arnynt, er mwyn byw bywyd positif.<br>✓ Bydd mwy o bobl yn manteisio ar addysg gymunedol ac yn ymgymryd â sgiliau sylfaenol sy'n eu helpu i gael gwaith.<br>✓ Byddwn yn datblygu rôl yr ysgol yn y gymuned a rôl y gymuned i gefnogi ein hysgolion. |
| 2. Annog a chefnogi pobl ifanc a theuluoedd | ✓ Bydd mwy o blant yn derbyn gofal plant ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, felly'n cyfrannu at ddyheadau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.<br>✓ Bydd mwy o deuluoedd yn cael mynediad at raglen Dechrau'n Deg.<br>✓ Bydd mwy o ysgolion sydd angen buddsoddiad gan raglen ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu moderneiddio.<br>✓ Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn ymwneud yn uniongyrchol â phenderfyniadau'r cyngor ac yn llywio gwasanaethau'r cyngor.<br>✓ Byddwn wedi lleihau ein poblogaeth Plant Sy'n Derbyn Gofal a bydd mwy o lawer yn byw gyda gofalwyr maeth mewnol.<br>✓ Byddwn wedi cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol sy'n meddu ar y sgiliau i reoli sefyllfaoedd cymhleth.<br>✓ Byddwn wedi datblygu opsiynau llety therapiwtig yn y sir ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.<br>✓ Byddwn yn gweithio gyda mwy o bobl ifanc i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan atal pobl rhag dod i gyswllt â'r system gyfiawnder troseddol.<br>✓ Byddwn wedi cefnogi mwy o ffoaduriaid i ymgartrefu yn ein cymunedau.<br>✓ Byddwn yn hyrwyddo rôl ac anghenion gofalwyr ifanc yn y gymuned, er mwyn iddyn nhw allu cael mynediad teg at wasanaethau.<br>✓ Byddwn yn amddiffyn plant rhag sylweddau a chynhyrchiol niweidiol drwy gynnal ymarferion 'prawf-brynu' gyda phartneriaid o ran gwerthu nwyddau sydd wedi eu cyfyngu i oedran penodol, fel alcohol, tybaco a chyllyll. |
| 3. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb | ✓ Ein nod fydd atal pob teulu ac unigolyn rhag bod yn ddigartref trwy ymyrryd a thargedu cefnogaeth.<br>✓ Byddwn yn lleihau digartrefedd drwy weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mwy o fynediad i lety addas a gwasanaethau cymorth.<br>✓ Byddwn yn gweithio gyda chymunedau i'w cefnogi i fod yn fwy gwydn, a dibynnu'n llai ar wasanaethau statudol.<br>✓ Bydd mwy o bobl yn cael mwy o annibyniaeth yn eu cartrefi, ac yn cael mynediad at wasanaethau yn eu cymuned wrth inni ddatblygu ein gwasanaethau ail-alluogi ymhellach yn y gymuned.<br>✓ Byddwn yn sicrhau bod plant sydd ag anableddau yn cael gwasanaeth o safon sy'n hyrwyddo bywyd teuluol, annibyniaeth a mynediad at gyfleusterau cymunedol. |

| | |
|---|---|
| | ✓ Byddwn wedi helpu i fynd i'r afael â rhai o effeithiau difrifol yr argyfwng costau byw gydag amrywiaeth o gymorth ariannol i'r rhai sydd fwyaf anghenus.<br>✓ Byddwn ni'n dod â thai preifat a fforddiadwy newydd i'r farchnad, drwy weithio gyda thirfeddianwyr i nodi parseli newydd o dir ar gyfer tai.<br>✓ Byddwn yn darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn sydd o oed meithrin a chynradd.<br>✓ Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a'n busnesau i ddarparu swyddi cynaliadwy, da yn y Fwrdeistref, i alluogi pobl i fyw'n dda.<br>✓ Byddwn yn gwella safonau tai ac yn canfod risgiau i iechyd a diogelwch drwy ymateb i gwynion gan breswylwyr am eiddo rhent preifat.<br>✓ Bydd mwy o bobl yn byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain trwy ddefnyddio mwy o dechnoleg gynorthwyol. |
| 4. Cysylltu pobl a chymunedau | ✓ Bydd mwy o bobl yn dewis cludiant cyhoeddus fel modd o deithio at ddibenion cymdeithasol a busnes gyda mwy o drenau'n stopio yng Ngorsafoedd Rheilffordd Cwmbrân a Phont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd.<br>✓ Bydd gennym mwy o lwybrau teithio llesol gyda mwy o bobl yn cwrdded a beicio, yn cynnwys gwella hygyrchedd i bobl anabl i sicrhau eu bod yn gallu mwynhau eu hamgylchedd leol.<br>✓ Bydd mwy o bobl yn defnyddio cerbydau trydan wrth deithio, ac i gefnogi hyn bydd mwy o bwyntiau gwefru yn cael eu gosod yn y sir.<br>✓ Byddwn yn gweithio gyda mwy o wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i wella amgylcheddau a chymunedau lleol.<br>✓ Bydd mwy o bobl yn cael mynediad at wasanaethau'r cyngor, gan ddefnyddio cyswllt di wifr sy'n gyflymach ac ar gael yn ehangach.<br>✓ Byddwn yn defnyddio datrysiadau digidol i'n helpu i fonitro sut mae pobl yn defnyddio canol ein tref.<br>✓ Bydd llai o bobl yn cael eu hallgau yn ddigidol drwy wella mynediad i fand eang. |
| 5. Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur | ✓ Byddwn wedi cynyddu'r tir sy'n eiddo i'r Cyngor sy'n cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth.<br>✓ Byddwn ymhell ar ein ffordd i gyrraedd ein targed o fod yn garbon sero net erbyn 2030.<br>✓ Byddwn wedi rhagori ar ein targedau ailgylchu am ein bod yn casglu mwy o wahanol ddefnyddiau i'w hailgylchu.<br>✓ Byddwn yn mynd i'r afael â throseddau amgylcheddol er mwyn atal taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn.<br>✓ Byddwn yn meithrin mwy o falchder drwy ddarparu mwy o gefnogaeth i weithredu amgylcheddol cymunedol.<br>✓ Bydd adeiladau'r Cyngor yn defnyddio llai o danwydd ffosil a bydd adeiladau addas yn cael eu defnyddio er mwyn cynhyrchu trydan adnewyddadwy. |

| | |
|---|---|
| | ✓ Bydd mwy o'n cerbydau'n allyriadau yn gerbydau allyriadau isel iawn, gan leihau ôl troed carbon y Cyngor yn gyffredinol.<br>✓ Byddwn wedi cynyddu nifer y coed sydd ein bwrdeistref, a sefydlu perllannau newydd i gynyddu ein gallu i ddal gafael ar garbon a hyrwyddo bioamrywiaeth.<br>✓ Byddwn wedi hyfforddi dros 1,000 o aelodau staff i fod yn hyrwyddwyr hinsawdd, fel bod pobl yn deall effaith eu penderfyniadau ar newid hinsawdd.<br>✓ Byddwn wedi datblygu gwarchodfa natur leol newydd er mwyn dangos ein hymrwymiad i warchod yr amgylchedd a chreu mannau gwerthfawr y gall ein cymunedau eu mwynhau.<br>✓ Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, a sicrhau'r cyfleoedd cyllido mwyaf posibl i wella'r amgylchedd naturiol lleol, a chyflwr parciau lleol a mannau awyr agored cyhoeddus.<br>✓ Byddwn yn gwella ansawdd aer o fewn y Fwrdeistref gan gymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. |
| 6. Sicrhau bod Torfaen yn lle da i gynnal busnes | ✓ Byddwn wedi cefnogi busnesau yn y sir i sicrhau twf economaidd drwy helpu preswylwyr i gael hyd i waith teilwng, ffyniannus a diogel.<br>✓ Byddwn wedi annog twf yn nifer y mentrau bach a chanolig, micro-fentrau a busnesau newydd.<br>✓ Byddwn yn creu ecosystem arloesol i hyrwyddo ymchwil a datblygu lleol yn ein busnesau i'w helpu i dyfu a dod yn fwy llewyrchus.<br>✓ Byddwn wedi hybu Torfaen fel lle i fuddsoddi ac wedi gweithio gyda datblygwyr i drawsnewid safleoedd tir llwyd ar gyfer cyflogaeth.<br>✓ Byddwn wedi nodi parseli newydd o dir diwydiannol/cyflogaeth, gan weithio gyda thirfeddianwyr i ddod â nhw i'r farchnad.<br>✓ Byddwn wedi ysgogi gwariant yn ein heconomi leol drwy wella sgiliau lleol a thrwy ein gwariant ein hunain fel Cyngor.<br>✓ Byddwn wedi cynyddu sgiliau’r gweithlu lleol i ddenu a chadw cyflogwyr.<br>✓ Byddwn yn defnyddio rhai o adeiladau'r cyngor yn wahanol i annog a chefnogi busnesau a diwydiannau newydd. |
| 7. Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw | ✓ Bydd gan bob ysgol gynlluniau i gefnogi lles emosiynol a meddyliol ei staff a’i dysgwyr.<br>✓ Dylai pob disgybl allu cymryd rhan mewn 60 munud o weithgaredd bob dydd.<br>✓ Byddwn yn ehangu cymorth iechyd meddwl i bobl o bob oed.<br>✓ Byddwn yn ehangu cyfleusterau chwarae cynhwysol sy'n addas ar gyfer pob plentyn.<br>✓ Byddwn yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu amrywiaeth o ddarpariaeth fel y gall mwy o breswylwyr gael hyd i gymorth a chymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli. |

| | |
|---|---|
| | ✓ Byddwn yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen i ganiatáu i ddisgyblion ysgol gael mwy o fynediad at gyfleusterau.<br>✓ Byddwn yn datblygu gwasanaethau cymorth cymunedol ac yn lleihau nifer yr oedolion a'r plant sydd angen gofal ffurfiol.<br>✓ Byddwn yn cynnal archwiliadau ar fusnesau bwyd yn Nhorfaen i sicrhau bod y bwyd yn ddiogel, a'i fod yn cyfateb â'i ddisgrifiad.<br>✓ Byddwn yn datblygu strategaeth chwaraeon a hamdden gyda'n partneriaid i gynnwys mwy o bobl mewn gweithgareddau iach ac yn cynyddu cyfleoedd i fwy o bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. |
| 8. Cefnogi diwylliant a threftadaeth a sicrhau bod lleoedd yn llewyrchus, yn ddiogel ac yn deniadol | ✓ Byddwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i gyrchfannau yn Nhorfaen gan gynnwys Fferm Gymunedol Greenmeadow sydd ar ei newydd wedd.<br>✓ Byddwn yn adfywio canol ein trefi ac yn annog economi gyda'r nos, gyda mwy o ymwelwyr yn mwynhau lleoedd o ansawdd da i fwyta ac yfed.<br>✓ Bydd Nant Blaengafog ar safle'r British yn cael ei dargyfeirio o'r cylfatiau ac yn llifo mewn sianel newydd, yn un o gamau cyntaf uwch gynllun y British. Byddwn wedi lleihau lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais difrifol yn ein cymunedau.<br>✓ Byddwn yn gweithio gyda chymunedau a sicrhau cymaint â phosib o gyfleoedd cyllido i wella edrychiad cymunedau a chanol trefi sy'n helpu i hybu balchder yn y lle.<br>✓ Byddwn yn hyrwyddo Torfaen fel 'Cyrchfan', gan weithio gyda'n atyniadau rhagorol i ymwelwyr, fel y gallwn gynnig pecynnau deniadol i ymwelwyr yn ystod y dydd a dros nos, fydd yn cynnwys lleoliadau ar draws y Fwrdeistref. |
| 9.Darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid | ✓ Byddwn yn Gyngor effeithlon â gallu digidol, sy'n darparu gwasanaeth rhagorol o gwsmeriaid, felly'n caniatáu mwy o breswylwyr i gwblhau eu trafodion ar lein.<br>✓ Byddwn yn mynd ati i gyfeirio preswylwyr at ystod ehangach o wasanaethau ataliol a gwybodaeth am les, i gynyddu nifer y bobl sy'n cael hyd i wybodaeth a chymorth gan eu cymuned.<br>✓ Bydd mwy o breswylwyr yn cael gafael ar wybodaeth gyhoeddus, cyngor ac arweiniad ar unrhyw adeg, mewn unrhyw fan ac unrhyw le.<br>✓ Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu cynllunio i adlewyrchu anghenion cwsmeriaid nid anghenion busnes drwy gynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori â chwsmeriaid i sicrhau bod gwasanaethau'n gwrando ac yn gwella. |

## 6. Sut yr eir ati i adolygu ein camau i gyflawni ein hamcanion llesiant

Caiff ein gweithgarwch ei rheoli drwy ymagwedd gadarn tuag at reoli prosiectau er mwyn sicrhau bod cynnydd, risgiau ac atebolrwydd yn amlwg

Mae cynnwys preswylwyr a rhanddeiliaid wrth ddatblygu gwasanaethau a phrosiectau yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir, ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir. Fel rhan o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, buodd ein trefniadau llywodraethu a chyfranogiad yn destun adolygiad sylweddol, a arweiniodd at eglurhad o ran sut y gall aelodau’r cyhoedd chwarae rhan mewn penderfyniadau, craffu a dwyn y cyngor i gyfrif.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r rôl y mae ein gweithwyr yn ei chwarae o ran cyflawni'r cynllun hwn a’u cyfrifoldeb dros ein gwasanaethau statudol niferus. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n denu a chadw gweithlu medrus ac ymroddedig, wrth wneud y gorau o weithio gyda phartneriaid allanol, i rannu arbenigedd, er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei gyflawni.

Mae Cynllun Cyflenwi blynyddol sy'n cysylltu'r gweithgareddau yn ein cynllun â'r amcanion llesiant a nodwyd, wedi'i rhoi ar waith ar gyfer 2022-23. Cynhelir yr ymarfer hwn yn flynyddol a chaiff ei lywio gan y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn flaenorol. Mae ein Cynllun Sirol 2022-27 yn dangos yr allbynnau y byddwn yn eu monitro i ddangos cynnydd a'r canlyniadau lefel uchel, a fydd yn dangos llwyddiant ein huchelgeisiau. Bydd y rhain yn sail i adroddiad monitro chwarterol ar gyfer 2022/23 a thu hwnt.

Bydd ein hymagwedd tuag at gynllunio gwasanaethau yn ganolog i gyflawni ein dyheadau. Rydym yn datblygu'r broses i sicrhau bod cynlluniau pob maes gwasanaeth yn ddogfennau cynhwysfawr, byw, sy’n gyfrwng i ddarparu, adrodd a dwyn i gyfrif yr holl gynlluniau a strategaethau lefel uchel. Byddwn yn parhau i adeiladu diwylliant o berfformiad uchel ledled y Cyngor, gan fonitro'r gwaith o gyflawni ein gweithgareddau, ein risgiau a'n data perfformiad yn rheolaidd, a fydd, ar y cyd, yn ein galluogi i ddatblygu fel sefydliad a chyflawni ein dyheadau ar gyfer Torfaen.

TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**Paratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

**Hydref 2022**

I gael mwy o wybodaeth neu i roi sylwadau ar y ddogfen hon, cysylltwch â:


Y Tîm Gwella a Chraffu
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Rhif Ffôn: 01495 766298
E-bost: corporate.plan@torfaen.gov.uk